


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynllun Datblygu Lleol 2

(Mabwysiadwyd Medi 2020)



Adroddiad Adolygu

Mawrth 2025



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park

Pennod 1: Cyflwyniad a Chefnidir	4
1.1 Cefndir.....	4
1.2 Pwrpas yr Adroddiad	4
1.3 Strwythur yr Adroddiad	5
1.4 Ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu	6
Pennod 2: Prif Ganfyddiadau Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMR) Cynllun Datblygu Lleol 2.....	7
2.2 Prif Ganfyddiadau Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol 2	8
Pennod 3: Newidiadau Allweddol o ran Deddfwriaeth a Chyd-destun	10
3.2 Newidiadau Cyd-destunol Allweddol.....	10
<i>Newidiadau i Ddeddfwriaeth, Polisi a Strategaeth</i>	<i>11</i>
3.3 Newidiadau Cenedlaethol.....	11
3.4 Newidiadau Rhanbarthol	21
3.5 Newidiadau Lleol	24
Pennod 4: Adolygu'r CDLI.....	28
4.1 Gweledigaeth ac Amcanion.....	28
4.2 Strategaeth Ofodol	29
<i>Polisi 2 Canolfan Gwasanaeth a Thwristiaeth Dinbych-y-pysgod (Haen 1) (Polisi Strategaeth).....</i>	<i>29</i>
<i>Polisi 3 Canolfan Leol Trefdraeth (Haen 2) (Polisi Strategaeth).....</i>	<i>29</i>
<i>Polisi 4 Canolfan Leol Saundersfoot (Haen 2) (Polisi Strategaeth)</i>	<i>29</i>
<i>Polisi 5 Canolfan Leol Tyddewi (Haen 2) (Polisi Strategaeth)</i>	<i>29</i>
<i>Polisi 6 Canolfannau Gwledig (Haen 3) (Polisi Strategaeth).....</i>	<i>29</i>
<i>Polisi 7 Cefn Gwlad (Haen 4) (Polisi Strategaeth)</i>	<i>29</i>
4.3 Blaenoriaeth A: Rhinweddau Arbennig.....	30
<i>Polisi 8 Rhinweddau Arbennig.....</i>	<i>30</i>
<i>Polisi 9 Llygredd Golau</i>	<i>31</i>
<i>Polisi 10 Safleoedd a Rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd</i>	<i>32</i>
<i>Polisi 11 Safleoedd a rhywogaethau a warchodir yn genedlaethol</i>	<i>32</i>
<i>Polisi 12 Ardaloedd Cadwraeth Natur Lleol neu Safleoedd o Ddiddordeb Daearegol.....</i>	<i>32</i>
<i>Polisi 13 Yr Iaith Gymraeg.....</i>	<i>34</i>
<i>Polisi 14 Cadwraeth a Gwellu Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro</i>	<i>35</i>
<i>Polisi 15 Man Agored</i>	<i>36</i>
<i>Polisi 16 Lleiniau Glas</i>	<i>36</i>
4.4 Blaenoriaeth B: Datblygiad Mawr, y potensial ar gyfer twf.....	37
<i>Polisi 20 Maint y Twf</i>	<i>37</i>
<i>Polisi 21 Diogelu Mwynau</i>	<i>38</i>

<i>Polisi 22 Clustogfeydd</i>	38
<i>Polisi 23 Pyllau Benthg</i>	38
<i>Polisi 24 Cerrig Adeiladu Lleol</i>	38
<i>Polisi 25 Deunyddiau wedi'u Hailgylchu, Eilaidd a Gwastraff</i>	38
<i>Polisi 26 Safleoedd Mwynau Segur</i>	38
<i>Polisi 27 Gwastraff</i>	40
<i>Polisi 28 Compostio</i>	40
4.5 Blaenoriaeth C: Newid yn yr Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy, Llifogydd, Ynni Cynaliadwy	41
<i>Polisi 29 Dylunio Cynaliadwy</i>	41
<i>Polisi 33 Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel</i>	42
<i>Polisi 34 Llifogydd a Mewnlif Arfordirol</i>	43
<i>Polisi 35 Datblygu yn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol</i>	43
<i>Polisi 36 Adleoli Anheddau Parhaol Presennol yr Effeithir Arnynt gan Newid Arfordirol</i>	43
<i>Polisi 37 Adleoli ac Amnewid Datblygiad (heblaw Preswyl) yr Effeithir Arno gan Newid Arfordirol</i>	43
4.6 Blaenoriaeth D: Economi Ymwelwyr, Cyflogaeth	46
<i>Polisi 38 Economi Ymwelwyr (Polisi Strategol)</i>	46
<i>Polisi 39 Colli Gwestai a Thai Llety</i>	46
<i>Polisi 40 Datblygu Hunanddarpar</i>	46
<i>Polisi 41 Datblygu Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau</i>	46
<i>Polisi 42 Cyfleusterau Safle ar safleoedd Gwersylla, Cabanau Gwyliau a Charafannau</i>	46
<i>Polisi 43 Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Byw/Gwaith</i>	48
<i>Polisi 44 (Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth)</i>	48
<i>Polisi 45 (Arallgyfeirio ar Ffermydd)</i>	48
4.7 Blaenoriaeth E: Tai Fforddiadwy a Thai	49
<i>Polisi 46 Tai (Polisi Strategol)</i>	49
<i>Polisi 47 Dyraniadau Tai neu Dir gyda Chaniatâd Cynllunio</i>	49
<i>Polisi 48 Tai Fforddiadwy (Polisi Strategol)</i>	53
<i>Polisi 49 Safleoedd Eithrio Tai Fforddiadwy</i>	53
<i>Polisi 50 Cynigion Datblygu Tai</i>	55
<i>Polisi 51 Dwysedd Tai</i>	55
<i>Polisi 52 Cymysgedd Tai</i>	55
<i>Ail Gartrefi a Thenantiaethau cyfnod byr</i>	57
<i>Polisi 53 Sipsiwn a Theithwyr</i>	58
4.8 Blaenoriaeth F: Cyfleusterau Cymunedol, Adwerthu, Trafnidiaeth	59
<i>Polisi 54 Cyfleusterau cymunedol</i>	59
<i>Polisi 55 Seilwaith</i>	61
<i>Polisi 56 (Polisi Strategol) Adwerthu yn y Parc Cenedlaethol</i>	62
<i>Polisi 57 Canolfannau Siopa Tref ac Ardal</i>	62
<i>Polisi 58 Canolfannau Garddio</i>	62
<i>Polisi 59 Trafnidiaeth Gynaliadwy</i>	63

<i>Polisi 60 Effeithiau Traffig</i>	63
<i>Polisi 61 Llwybr beiciau</i>	63
<i>Polisi 62 Llinellau Pŵer a Phiblinellau</i>	65
<i>Polisi 63 Telathrebu</i>	65
Pennod 5: Cyfleoedd i Weithio ar y Cyd a Chydweithredu	67
Pennod 6: Casgliad	69
6.1 Pa fath o ddiwygiad i'r cynllun sydd ei angen?	69
Atodiad 1: Adolygiad Polisi	72

Pennod 1: Cyflwyniad a Cefndir

1.1 Cefndir

1.1.1 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro oedd un o'r awdurdodau cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2 newydd (CDLI 2). Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol 2 gan yr Awdurdod ar 30 Medi 2020 ac mae'r cynllun yn gosod y fframwaith cynllunio ar gyfer datblygu tan ddiwedd 2031.

1.1.2 Mae'r CDLI 2 wedi cael ei fonitro'n flynyddol, a hyd yma mae tri Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) wedi cael eu cyhoeddi. Mae'r adroddiadau hyn yn gwerthuso pa mor dda y mae strategaeth, amcanion a pholisïau'r CDLI yn cael eu cyflawni. Rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol gynnal adolygiad llawn o'u Cynllun Datblygu Lleol heb fod yn hwy na phedair blynedd ar ôl dyddiad ei fabwysiadu.¹ Mae hyn yn sicrhau bod y cynllun yn gyfredol ac yn nodi unrhyw newidiadau a allai fod yn ofynnol. Dechreuodd yr Awdurdod adolygu Cynllun Datblygu Lleol 2 yn ffurfiol ym mis Medi 2024.

1.1.3 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cadarn sy'n perfformio'n dda' (Tachwedd 2024) sy'n cynnig ymestyn cyfnod Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol o bedair blynedd i chwe blynedd. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn gofyn am adolygiad llawn bob pedair blynedd.

1.2 Pwrpas yr Adroddiad

1.2.1 Mae'r Adroddiad Adolygu yn nodi lle mae'r CDLI yn cyflawni, meysydd lle mae angen iddo newid a pham. Mae'n trafod y materion allweddol a'u heffaith ar y strategaeth, y polisïau a'r safleoedd. Dim ond meysydd sydd angen eu newid y gall yr Adroddiad Adolygu eu hamlygu, yn hytrach na nodi sut y bydd y Cynllun yn cael ei newid. Nid yw'r adroddiad hwn yn newid nac yn darparu manylion newidiadau posibl i'r CDLI 2 a fabwysiadwyd. Rhaid gwneud unrhyw newidiadau i'r CDLI 2 a fabwysiadwyd drwy ddiwygio'r cynllun.

1.2.2 Daw'r Adroddiad Adolygu i gasgliad ynghylch y weithdrefn adolygu briodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2. Mae dwy drefn adolygu: yr adolygiad byr neu adolygiad llawn. Y weithdrefn adolygiad byr yw pan fo newidiadau cyfyngedig a

¹ United Kingdom Government, *Planning and Compulsory Purchase Act, 2004*, ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/resources> cyrchwyd ar 18 Tachwedd 2024.

phenodol yn ofynnol i'r cynllun. Mae'r weithdrefn adolygiad lawn yn ddiwygiad llawn i'r CDLI a byddai'n dilyn yr un gweithdrefnau a chatau wrth baratoi CDLI 2.

1.3 Strwythur yr Adroddiad

1.3.1 Trefnir yr adroddiad hwn fel a ganlyn i roi sylw i'r gofynion a nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3).

Canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynnyddol

1.3.2 Mae Pennod dau yn amlinellu canfyddiadau'r tri Adroddiad Monitro Blynnyddol, gan gynnwys y wybodaeth fonitro ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Newidiadau Cyd-destunol

1.3.3 Mae pennod tri yn cynnwys crynodeb o'r prif newidiadau cyd-destunol ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2, gan gynnwys y prif newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol sy'n effeithio ar y cynllun datblygu.

Adolygu Gweledigaeth, Amcanion, Strategaeth a Pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol.

1.3.4 Mae Pennod pedwar yn darparu adolygiad manwl o weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r CDLI. Mae'r adran hon yn amlinellu pob maes pwnc yn y CDLI, gan werthuso ei effeithiolrwydd a nodi unrhyw newidiadau angenrheidiol a rhannau o'r sylfaen dystiolaeth y mae angen eu diweddarau.

Cyfleoedd Cydweithio

1.3.5 Mae Pennod pump yn edrych ar y cyfleoedd posibl i baratoi CDLI ar y Cyd gydag awdurdodau cyfagos a chyfleoedd i weithio gydag awdurdodau cynllunio lleol cyfagos.

Casgliad ar y Weithdrefn Adolygu

1.3.6 Mae Pennod chwech yn crynhoi canfyddiadau'r adolygiad ac yn nodi a argymhellir Adolygiad Llawn (Cynllun Datblygu Lleol Newydd) neu Adolygiad Byr o'r Cynllun Datblygu Lleol, ynghyd â'r rhesymau dros hyn.

1.4 Ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu

1.4.1 Er nad yw'n ofyniad statudol i gynnal ymgynghoriad ar yr Adroddiad Adolygu drafft, mae Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod o'r farn y byddai'n darparu'r cadernid mwyaf posibl ac yn cyfiawnhau casgliadau'r Adroddiad Adolygu pe gofynnid am farn ar gynnwys a chasgliadau'r adroddiad hwn. Gwahoddir rhanddeiliaid a'r cyhoedd i gyfrannu er mwyn helpu i ganfod pa mor effeithiol fu'r Cynllun Datblygu Lleol 2 presennol o ran datblygu a mynd i'r afael â materion allweddol yn y Parc Cenedlaethol. Gwahoddir sylwadau hefyd ar ba faterion y mae angen eu hystyried mewn CDLI newydd. Bydd rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn cael eu gwahodd i gyflwyno unrhyw sylwadau ar yr Adroddiad Adolygu drafft i'r Awdurdod dros gyfnod o chwe wythnos yn gynnar yn 2025. Bydd swyddogion yn ystyried yr holl sylwadau a wnaed ac yn gwneud y newidiadau gofynnol i'r adroddiad cyn cyflwyno Adroddiad Adolygu terfynol i Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym mis Mawrth 2025. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd yr Adroddiad Adolygu yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a bydd ar gael i'w weld ar wefan yr Awdurdod.

Penod 2: Prif Ganfyddiadau Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMR) Cynllun Datblygu Lleol 2

2.1.1 Mae'r Awdurdod wedi paratoi a chyhoeddi tri Adroddiad Monitro Blynyddol ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2 ar 30 Medi 2020. Caiff polisïau'r Cynllun eu hasesu o ran i ba raddau y maent yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad, ac a yw amcanion y Cynllun yn cael eu cyflawni. Mae sbardunau hefyd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad polisi i sicrhau bod adolygiad manwl yn cael ei gynnal o effeithiolrwydd y polisi ac unrhyw ddylanwadau allanol pan fydd y sbardun yn cael ei fodloni.

2.1.2 Mae'r Cynllun yn nodi 16 o ganlyniadau allweddol i'w cyflawni erbyn diwedd cyfnod y Cynllun (h.y. 2031). Mae tri deg chwech o ddangosyddion a thargedau wedi'u grwpio o dan y canlyniadau hyn i asesu perfformiad y Cynllun.

2.1.3 Yn y trydydd cyfnod monitro AMR (2023-24), roedd yr holl ddangosyddion yn dangos gweithredu polisi cadarnhaol, heb ysgogi unrhyw sbardunau, ac fe'u dangosir yn wyrdd yn y tabl isod.

Tabl 1: Crynodeb o Fonitro'r CDLI ar gyfer AMR 3 (2023-24)

Cam gweithredu	Asesiad	Nifer y Dangosyddion
Parhau i Fonitro	Mae polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu'n effeithiol.	36
Angen Hyfforddiant	Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac mae angen hyfforddiant ar swyddogion neu Aelodau.	0
Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)	Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac mae angen canllawiau pellach, gan baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ychwanegol o bosibl.	0
Angen Archwilio/Ymchwilio Pellach	Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac mae angen rhagor o ymchwil a/neu archwilio.	0
Angen Adolygiad Polisi	Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu ac nid ydynt yn cael eu cyflawni; efallai y bydd angen adolygu'r polisi penodol.	0
Adolygu'r Cynllun	Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu ac nid yw strategaeth y cynllun yn cael ei chyflawni, gan	0

	sbarduno adolygiad ffurfiol cyn yr adolygiad 4 blynedd statudol.	
--	--	--

2.1.4 Yn ystod cyfnodau Monitro AMR 1 (2021-22) a 2 (2022-23) nodwyd nifer fach o ddangosyddion ar gyfer ymchwiliad ac archwilio pellach, neu nodwyd bod angen hyfforddiant. Lle nodwyd y rhain, cymerwyd y camau priodol ac maent wedi arwain at bob dangosydd yn dangos gweithrediad polisi cadarnhaol a statws 'parhau i fonitro'.

2.1.5 Er nad yw'r dangosyddion yn tynnu sylw at yr angen am adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae angen adolygiad cynhwysfawr er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad statudol i gychwyn adolygiad heb fod yn hwy na phedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu, ac yng ngoleuni'r newidiadau cydestunol a amlygir yn yr adroddiad hwn.

2.2 Prif Ganfyddiadau Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) Blyneddol Cynllun Datblygu Lleol 2

2.2.1 Mae'r Cynllun yn nodi 15 Amcan Cynaliadwyedd sy'n cael eu monitro drwy'r AMR.

2.2.2 Yn y trydydd cyfnod monitro AMR (2023-24), dangosodd 13 o ddangosyddion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd fod cynnydd mewn perfformiad yn dal yn dderbyniol, gyda dau ddangosydd wedi'u nodi fel rhai sy'n gofyn am ragor o ddata i ddod i gasgliadau.

Tabl 2: Crynodeb o Fonitro Dangosydd Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer AMR 3 (2023-24)

Rhif Dangosydd Arfarniad Cynaliadwyedd	Testun	Dadansoddiad
1	Amaethyddiaeth a Choedwigaeth	Mae angen rhagor o ddata i ddod i gasgliadau – mae'r data diweddaraf wedi'i gynnwys.
2	Teithio	Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol
3	Rhinweddau Arbennig	Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol

Rhif Dangosydd Arfarniad Cynaliadwyedd	Testun	Dadansoddiad
4	Hamdden	Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol
5	Ymwelwyr ar adegau tawel	Mae angen rhagor o ddata i ddod i gasgliadau – mae'r data diweddaraf wedi'i gynnwys.
6	Addasu i Newid yn yr Hinsawdd	Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol
7	Ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd	Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol
8	Cymunedau Cynaliadwy	Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol
9	Mynediad at dai	Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol
10	Nodweddion Diwylliannol Unigryw	Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol
11	Mwynau	Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol
12	Gwastraff	Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol
13	Cyfleusterau Cymunedol	Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol
14	Gwella bioamrywiaeth	Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol
15	Ansawdd Dŵr	Nid yw'r materion cyfredol sy'n ymwneud â ffosforws mewn mannau eraill yn Sir Benfro yn effeithio ar strategaeth y Cynllun.

2.2.3 Yn ystod cyfnod y cynllun, hyd yma, wrth fonitro'r dangosyddion arfarniad o gynaliadwyedd daeth yn amlwg bod angen ffynonellau data gwell neu fwy cyffredin ar ddau o'r dangosyddion. Fel rhan o'r broses adolygu, bydd yr Awdurdod yn ailedrych ar y fframwaith a'r dangosyddion gwerthuso cynaliadwyedd gyda golwg ar nodi metrigau mwy dibynadwy i fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion.

3.1.1 Mae'n ofynnol i'r adolygiad ystyried newidiadau cyd-destunol sylweddol ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2 ym mis Medi 2020. Bydd y bennod hon yn amlinellu nifer o ddigwyddiadau allweddol sydd wedi effeithio ar y cyd-destun cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a gwleidyddol y mae'r CDLI yn gweithredu ynddo. Bydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisïau a strategaethau newydd ar raddfa genedlaethol, ranbarthol a lleol sy'n effeithio ar y cyd-destun cynllunio hefyd yn cael eu crynhoi.

3.2 Newidiadau Cyd-destunol Allweddol

Pandemig Covid-19

3.2.1 Cafodd pandemig Covid-19 effeithiau economaidd a chymdeithasol sylweddol ac achosodd newidiadau mewn ffyrdd o fyw a phatrymau defnydd. Er enghraifft, arweiniodd y gofyniad i aros gartref at gynydd mewn gweithio gartref ac o bell sydd wedi effeithio ar y galw am ofod swyddfa, wedi effeithio ar ganol trefi ac wedi arwain at gynydd yn y galw am dai mewn ardaloedd gwledig. Cafodd y pandemig effaith anghymesur ar grwpiau agored i niwed ac roedd y cyfyngiadau symud yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfleoedd teithio llesol a mynediad at fannau gwyrdd ac agored. Effeithiwyd ar y diwydiant twristiaeth yn Sir Benfro yn ystod y cyfnodau clo ac roedd galw mawr am wyliau gartref ar ôl caniatáu teithio. Roedd y pandemig wedi amharu'n sylweddol ar newidiadau yn y cyflenwad byd-eang a phrinder deunyddiau hanfodol, gan arwain at gynydd sydyn yng nghost deunyddiau adeiladu.

Brexit

3.2.2 Gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn swyddogol ar 31 Ionawr 2020. Mae ymadael â'r UE yn debygol o arwain at newid strwythurol tymor hwy yn economi'r DU sy'n effeithio ar fasnach, buddsoddi a mewnfudo. Roedd ymadawiad y DU o'r farchnad sengl a'r undeb tollau wedi cyflwyno rheolau, gwaith papur ac archwiliadau newydd ar gyfer cwmnïau sy'n masnachu gyda'r UE. Cafwyd effaith gymdeithasol a gwleidyddol hefyd gan fod rheolaethau mewnfudo llymach a allai effeithio ar y farchnad lafur, yn enwedig mewn rhai sectorau a oedd yn dibynnu ar weithwyr yr UE, fel amaethyddiaeth. Mae Brexit wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff polisïau amgylcheddol eu llunio a'u gweithredu. Mae'r DU wedi gorfod disodli deddfwriaeth Amgylcheddol yr UE, er enghraifft, cyfeirir at Safleoedd Ewropeaidd fel y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. Y sectorau yr

effeithir arnynt yw amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd, pysgota a'r amgylchedd, sy'n arwyddocaol yn y Parc Cenedlaethol.

Gwrthdaro yn Wcráin ac Israel

3.2.3 Arweiniodd rhyfel Wcráin ar ddechrau 2022, at gynnydd sydyn mewn prisiau ynni byd-eang a chyfrannodd at chwyddiant cynyddol, biliau ynni aelwydydd uwch, costau bwyd a chludiant. Mae'r gwrthdaro presennol yn y Dwyrain Canol rhwng Israel a Hamas yn cael effaith bellach. Mae'r ansefydlogrwydd rhyngwladol hwn wedi dylanwadu ar flaenoriaethau gwleidyddol gan ganolbwyntio o'r newydd ar ddiogelwch ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Roedd y digwyddiadau mawr hyn a nodwyd uchod yn cyfrannu at yr argyfwng costau byw lle cododd costau bwyd, tai ac ynni yn sylweddol mewn perthynas ag incwm.

Newidiadau i Ddeddfwriaeth, Polisi a Strategaeth

3.3 Newidiadau Cenedlaethol

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

3.3.1 Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru, sydd â statws cynllun datblygu. Roedd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ac yn nodi cyfeiriad strategol 20 mlynedd ar gyfer datblygu yng Nghymru. Mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio drwy ddatblygu economi fywiog, datgarboneiddio a chydnerthedd hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd cymunedol. Mae'r cynllun yn arwain buddsoddiadau seilwaith a datblygu a bydd yn cael ei fanylu ymhellach gan Gynlluniau Datblygu Strategol (CDS) rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) awdurdodau lleol, y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol.

3.3.2 Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys strategaeth ofodol genedlaethol ac yn cyflwyno pedwar rhanbarth yng Nghymru: Y Gogledd, y Canolbarth, y De Orllewin a'r De Dwyrain. Mae'r cynllun yn nodi 'ble bydd Cymru'n tyfu' (Polisi 1) drwy nodi ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol. Ar gyfer pob un o'r rhanbarthau, mae'r cynllun yn tynnu sylw at leoliadau allweddol ar gyfer twf, cyfleoedd ar gyfer seilwaith datblygu ac yn gosod fframwaith ar gyfer cynllunio rhanbarthol a lleol. Dywed Cymru'r Dyfodol: *'Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn endidau cynllunio unigryw sydd â chylch gwaith penodol i adlewyrchu nodweddion unigryw eu*

hardaloedd...ac mae polisiau Cymru'r Dyfodol yn parchu swyddogaethau Parciau Cenedlaethol o ran eu dibenion statudol...' (tudalen 104).

3.3.3 Mae'r fframwaith polisi yn nodi'r materion allweddol canlynol sydd o bwys cenedlaethol:

- Egwyddorion creu lleoedd strategol (Polisi 2)
- Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol (Polisi 3)
- Cefnogi cymunedau gwledig a'r economi wledig (Polisiau 4 a 5)
- Defnyddio egwyddor 'Canol Trefi yn Gyntaf' i gefnogi canol trefi a dinasoedd fel mannau aml-swyddogaethol (Polisi 6)
- Darparu tai fforddiadwy (Polisi 7). Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol edrych ar bob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a nodi datblygiadau sy'n cael eu harwain gan dai fforddiadwy.
- Mae Llifogydd (Polisi 8) yn cefnogi buddsoddi mewn seilwaith newydd a gwell sy'n hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur fel blaenoriaeth.
- Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a Seilwaith Gwyrdd (Polisi 9) gyda Bryniau Preseli a choetiroedd Gogledd Sir Benfro wedi'u dynodi'n Adnodd Naturiol Cenedlaethol.
- Polisi 10 'Cysylltedd Rhyngwladol' yn cydnabod pwysigrwydd Dyfrffordd a Phorthladdoedd Aberdaugleddau fel ased cenedlaethol mawr a phorth rhyngwladol pwysig ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr. Cydnabyddir hefyd bod "cadwyn gyflenwi sgiliau uchel amrywiol wedi datblygu'n lleol i gefnogi'r sector ynni sy'n gynyddol ymgorffori'r sector ynni adnewyddadwy, ac, yn benodol, ynni'r môr" (tudalen 82).
- Mae polisiau trafndiaeth (11 a 12) yn seiliedig ar hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy Cymru sy'n rhoi blaenoriaeth i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ac yn gosod y weledigaeth ar gyfer newid i gerbydau allyriadau isel.
- Mae seilwaith digidol (polisiau 13 a 14) yn cefnogi darparu seilwaith cyfathrebu digidol ac mae angen datblygiadau newydd i ddarparu seilwaith band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit.
- Mae Coedwig Genedlaethol (Polisi 15) yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu coedwig genedlaethol drwy nodi safleoedd a mecanweithiau priodol.
- Mae polisiau ynni adnewyddadwy 16, 17 a 18 yn cynnwys polisiau strategol gofodol a manwl sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer penderfynu ar geisiadau.
- Polisiau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol (Polisi 19).
- Mae Polisi 32 'Dyfrffordd ac Ynni Aberdaugleddau' yn dynodi Dyfrffordd Aberdaugleddau fel safle ar gyfer datblygiadau newydd posibl mewn ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan feithrin arloesedd a buddsoddiad.

Diweddariadau Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

3.3.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi cael ei ddiweddarau ddwywaith ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2 yn 2020. Roedd Argraffiad 11 (2021) yn alinio Polisi Cynllunio Cymru â 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040' a oedd yn pwysleisio lleoedd cynaliadwy sydd wedi'u hintegreiddio'n dda. Roedd Rhifyn 12 (2024) yn cyflwyno gofynion i awdurdodau cynllunio ystyried materion lleol fel pa mor gyffredin yw ail gartrefi a llety tymor byr, anghenion seilwaith gwyrdd manwl, manteision bioamrywiaeth net gorfodol a sicrhau'r manteision hyn drwy ddull gweithredu fesul cam. Ar ben hynny, mae'n darparu dull polisi cryfach ar gyfer diogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a chanllawiau ar goed a choetiroedd, gan hyrwyddo plannu newydd. Bydd angen adlewyrchu'r diweddariadau hyn mewn Cynlluniau Datblygu Strategol yn y dyfodol a Chynlluniau Datblygu Lleol newydd ac fe'u trafodir yn fanylach yn y bennod ganlynol ar yr adolygiad o feysydd pwnc.

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020)

3.3.5 Mae'r Llawlyfr wedi'i ddiweddarau, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi arweiniad ar baratoi cynlluniau datblygu, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r Llawlyfr yn darparu canllawiau a chynghor ar weithdrefnau i awdurdodau cynllunio lleol ar baratoi, monitro ac adolygu cynllun datblygu.

Dirymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Mawrth 2020)

3.3.6 Dirymwyd TAN 1 yn ei gyfanrwydd i adlewyrchu'r newidiadau ym Mholisi Cynllunio Cymru a oedd yn dileu'r angen am gyflenwad tir ar gyfer tai 5 mlynedd, gyda disgwyl bellach i Awdurdodau Cynllunio Lleol fonitro'r ddarpariaeth tai drwy'r llwybr tai a gyhoeddir yn yr Adroddiad Monitro Blyneddol bob blwyddyn.

Dirymu TAN 8 Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (Chwefror 2021)

3.3.7 Dirymwyd TAN 8 yn ei gyfanrwydd yn dilyn cyhoeddi Cymru'r Dyfodol sy'n cynnwys Polisiâu 17 a 18 sy'n nodi ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Dirymu TAN 19 Telathrebu (Chwefror 2024)

3.3.8 Dirymwyd TAN 19 yn ei gyfanrwydd i adlewyrchu canllawiau a chyngor polisi sydd bellach wedi'u nodi yn Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru.

TAN 15 Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol (ar gael Medi 2021)

3.3.9 Bydd y Nodyn Cyngor Technegol newydd yn disodli'r TAN 15 a TAN 14 Cynllunio Arfordirol presennol, gan gynnwys Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) wedi'i ddiweddarau a fydd yn disodli'r Mapiau Cyngor Datblygu. Bydd y Nodyn Cyngor Technegol wedi'i ddiweddarau yn ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd o ran erydu a pherygl llifogydd arfordirol ac yn sicrhau bod penderfyniadau cynllunio'n ystyried y risgiau. Mae'r cyhoeddiad wedi'i ohirio ar hyn o bryd, ond ar ôl ei gyhoeddi, bydd angen iddo fod yn sail i bolisi'r CDLI.

TAN 11 Ansawdd Aer, Sŵn a Seinwedd

3.3.10 Mae diweddariadau i TAN 11 wedi bod yn destun ymgynghoriad ac maent yn aros i gael eu cyhoeddi. Bydd y newidiadau'n sicrhau ei bod yn cyd-fynd â pholisïau Polisi Cynllunio Cymru i wella ansawdd aer a chreu a chynnal seinweddau i hyrwyddo iechyd, llesiant a chynaliadwyedd. Bydd canllawiau sŵn hefyd yn cael eu diweddarau.

Deddf Seilwaith (Cymru) (2024)

3.3.11 Mae Deddf Seilwaith (Cymru) yn symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau seilwaith mawr drwy sefydlu un broses caniatáu seilwaith ar gyfer mathau penodol o Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol yng Nghymru.

Newidiadau deddfwriaethol a pholisi ar ail gartrefi a thenantiaethau tymor byr (2022)

3.3.12 Ym mis Hydref 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru dri dosbarth defnydd newydd drwy ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987. Dyma'r tri defnydd sydd wedi'u cynnwys erbyn hyn:

- Dosbarth defnydd C3 (tai annedd; a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfeydd a feddiannir am fwy na 183 diwrnod mewn blwyddyn galendr).
- Dosbarth defnydd C5 (tai annedd; a ddefnyddir nid fel unig neu brif breswylfa sy'n cwmpasu tŷ annedd ac eithrio fel unig breswylfa neu brif breswylfa ac a feddiannir am 183 diwrnod neu lai mewn blwyddyn galendr h.y. ail gartrefi)

- Dosbarth defnydd C6 (Tenantiaethau cyfnod byr, yn cynnwys defnyddio tŷ annedd ar gyfer gosod am gyfnod byr yn fasnachol heb fod yn hwy na 31 diwrnod ar gyfer pob cyfnod meddiannaeth).

3.3.13 Ar yr un pryd, diwygiodd Llywodraeth Cymru Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 i ganiatáu newidiadau a ganiateir rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd - C3, C5 a C6 neu gymysgedd o ddefnyddiau. Gall awdurdod cynllunio lleol dynnu'r hawliau datblygu hyn a ganiateir yn ôl drwy Gyfarwyddyd Erthygl 4, lle mae'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn.

3.3.14 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd wedi cael ei ddiwygio (argraffiad 12), a phan fo'n berthnasol, rhaid ystyried pa mor gyffredin yw ail gartrefi a thenantiaethau tymor byr wrth ystyried y gofynion tai. Dylid archwilio dulliau polisi lleol i gefnogi hyfywedd cymunedau a gallai gynnwys cyflwyno cap neu nenfwd ar nifer yr ail gartrefi neu'r tenantiaethau cyfnod byr (paragraff 4.2.5).

Dyddiadau dod i ben y Cynllun Datblygu Lleol: llythyr at awdurdodau lleol (24 Medi 2020)

3.3.15 Mae llythyr gan Weinidog Cymru yn egluro'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 ynghylch dyddiadau dod i ben y cynllun. Cafodd y darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) ynghylch y cyfnod y mae cynllun yn cael effaith eu cychwyn ar 4 Ionawr 2016 a bydd cynlluniau datblygu a fabwysiadwyd ar ôl 4 Ionawr 2016 yn peidio â bod yn CDLI pan ddaw'r cyfnod a bennir yn y cynllun i ben. Ar gyfer y CDLI 2 mabwysiedig, bydd hwn yn peidio â bod yn gynllun datblygu a fabwysiadwyd ar ôl 31 Rhagfyr 2031.

Siarter Creu Lleoedd Cymru (2020)

3.3.16 Cafodd y Siarter a lansiwyd yn 2020, ei datblygu gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru ar y cyd â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru. Fe'i datblygwyd i adlewyrchu ymrwymiad cyfunol ac unigol sefydliadau i gefnogi creu lleoedd o ansawdd uchel ledled Cymru. Mae'r Siarter yn amlinellu chwe egwyddor sydd â'r nod o hyrwyddo ansawdd, cynaliadwyedd a'r gymuned o ran cynllunio a datblygu ledled Cymru. Yr egwyddorion hyn yw: cynnwys y gymuned, lleoliadau cynaliadwy, blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, creu mannau cyhoeddus diogel a chroesawgar, hyrwyddo cymysgedd o ddefnyddiau, a pharchu hunaniaeth leol. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gyd-lofnodwr ar gyfer y Siarter Creu Lleoedd, ochr yn ochr â'r Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

3.3.17 Daeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 i rym ar 4 Tachwedd 2024 ac mae wedi diddymu'r ddeddfwriaeth ganlynol yng Nghymru:

- Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953
- Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru, 2020

3.3.18 Yn 2019, gwnaeth Llywodraeth Cymru Ddatganiad Argyfwng Hinsawdd ac aeth ymlaen i osod targed i gyflawni Sero Net erbyn 2050. Yn 2021, cyhoeddodd Senedd Cymru Argyfwng Natur yng Nghymru.

3.3.19 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mynnu bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ystyried Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r adroddiad yn sail i sut gallwn fynd i'r afael â'r bygythiadau deuol sy'n deillio o'r argyfyngau hinsawdd a natur a sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae'r adroddiad yn nodi'r pwysau ar adnoddau naturiol, sy'n cynnwys newid yn yr hinsawdd a thwf yn y boblogaeth ac yn amlinellu cyfleoedd ar gyfer atebion integredig. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar sut i drawsnewid y system fwyd, y system ynni a'r system drafnidiaeth.

Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol (2021)

3.3.20 Mae Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol trafnidiaeth yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn nodi uchelgeisiau'r llywodraeth ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a'i blaenoriaethau ar gyfer cyfnod o 5 mlynedd. Y weledigaeth yw system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon. Mae'r strategaeth yn nodi tair blaenoriaeth:

1. Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio
2. Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon
3. Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy gynaliadwy.

Mae'r strategaeth yn gosod targed i 45 y cant o deithiau fod drwy ddulliau cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2045.

Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol Gorffennaf (2021)

3.3.21 Mae'r canllawiau wedi cael eu paratoi ar gyfer awdurdodau lleol ar gynllunio a dylunio rhwydweithiau o lwybrau cerdded a beicio. Mae'r canllawiau'n pwysleisio integreiddio ystyriaethau teithio llesol i lywio'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, drwy ddiogelu lwybrau, nodi cynigion ar gyfer gwella seilwaith, sicrhau bod

datblygiadau newydd wedi'u cysylltu'n dda ac ymgysylltu â chymunedau i ddeall eu hanghenion.

Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru

3.3.22 Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth a chynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r newid i gerbydau trydan. Nod Cymru yw cynyddu'r seilwaith gwefru trydan yn sylweddol erbyn 2030 a chefnogi'r nod ehangach o gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050.

Y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach (2020)

3.3.23 Mae'r strategaeth yn ceisio gwella ansawdd aer ledled Cymru ac mae'n canolbwyntio ar leihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'r economi. Mae amcanion allweddol y cynllun yn cynnwys: lleihau allyriadau o drafnidiaeth, diwydiant ac amaethyddiaeth; hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus i leihau dibyniaeth ar gerbydau preifat; gweithredu parthau aer glân a pharthau allyriadau isel mewn ardaloedd trefol; a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effeithiau llygredd aer ar iechyd ac annog newid mewn ymddygiad.

Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru, Llywodraeth Cymru, 2021.

3.3.24 Mae Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru (WDQR) yn gosod safonau ar gyfer pob cartref fforddiadwy a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadeiladu i safon uchel. Mae WDQR 2021, yn canolbwyntio ar greu cartrefi a lleoedd hardd ac yn gosod ac yn pennu safonau gofod a safonau amgylcheddol mewn perthynas ag adeiladu a gweithredu.

Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021

3.3.25 Cymru Iachach yw cynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n amcanu at integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor, gan bwysleisio atal, lles a gofal iechyd darbodus. Ei nod yw darparu mwy o wasanaethau yn y gymuned, gan gadw gofal mewn ysbytai ar gyfer triniaethau hanfodol. Mae'r cynllun yn tynnu sylw at bwysigrwydd partneriaethau cryf ar draws sectorau a chyllid cynaliadwy i gefnogi'r trawsnewidiadau hyn, gan ymdrechu yn y pen draw i greu poblogaeth iachach a mwy cydnerth drwy ganolbwyntio ar gadw pobl yn iach a darparu gofal effeithlon o ansawdd uchel.

Rheoliadau Asesu'r Effaith ar Iechyd (Cymru) Drafft 2023

3.3.26 Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd mewn amgylchiadau penodol. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Asesu'r Effaith ar Iechyd (Cymru) drafft ddechrau 2024 ac mae'n debygol y bydd yn dod yn ofyniad statudol i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer cynllun datblygu.

Cymru Sero Net

3.3.27 O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyfer pob cyfnod cyllidebol yn nodi eu polisiau a'u cynigion ar gyfer cyflawni'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae ail gynllun lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021 i 2025, yn gosod y sylfeini i wneud Cymru yn sero net erbyn 2050. Mae'r prif ffocws ar effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, trafnidiaeth, amaethyddiaeth a rheoli gwastraff.

Gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd sero net: Cynllun Cymru Gyfan 2021-2025

3.3.28 Mae'n rhoi addewid o ymrwymiad gan bartneriaid ledled Cymru i gyflawni sero net.

Strategaeth Mwy nag Ailgylchu (Mawrth 2021)

3.3.29 Mae Mwy nag Ailgylchu yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflymu'r newid i economi gylchol, carbon isel ac mae'n nodi'r camau allweddol sydd eu hangen dros y 10 mlynedd nesaf.

Canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar lygredd ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol (2021)

3.3.30 Ym mis Ionawr 2021, cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru dargedau llymach ar gyfer llygredd ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol. Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ganllawiau i Awdurdodau Cynllunio ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio, gan nodi na ddylai datblygiadau newydd gynyddu lefelau ffosffad mewn afonydd. Yn Sir Benfro, canfuwyd bod dalgylchoedd afonydd Teifi a Dwyrain a Gorllewin Cleddau yn methu â chyrraedd y targedau ansawdd dŵr diwygiedig ar gyfer ffosfforws. Ym mis Ionawr 2024, diweddarwyd y canllawiau i gynnwys asesu priodoleddau ansawdd dŵr eraill yn erbyn targedau mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gan gynnwys asesu faint o amonia sy'n cael ei ollwng i afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig.

Brexit a newidiadau i'r Rheoliadau Cynefinoedd

3.3.31 Ar ôl Brexit, gwnaed nifer o newidiadau i Reoliadau Cynefinoedd yn y DU er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n effeithiol y tu allan i fframwaith yr UE. Dyma rai o'r prif newidiadau:

- Trosoglwyddo Swyddogaethau: Trosoglwyddwyd y cyfrifoldebau a oedd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn flaenorol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Gweinidogion Cymru.
- Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol: Cafodd rhwydwaith safleoedd cenedlaethol ei greu, sy'n cynnwys safleoedd gwarchodedig presennol (NATURA 2000 gynt) ac unrhyw rai newydd sydd wedi'u dynodi o dan y rheoliadau.
- Amcanion Rheoli: Sefydlwyd amcanion rheoli newydd ar gyfer y rhwydwaith safle cenedlaethol i sicrhau ei fod yn cael ei reoli a'i addasu'n effeithiol.
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA): Diwygiwyd y broses ar gyfer dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.
- Adrodd a Chydymffurfiaeth: Gwnaed trefniadau newydd ar gyfer adrodd ar weithredu'r rheoliadau, gan nad yw'r DU bellach yn adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd.
- Rhesymau Hanfodol Er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI): Cafodd rôl y Comisiwn Ewropeaidd yn y prawf IROPI ei disodli gan awdurdodau cenedlaethol.

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021

3.3.32 Ym mis Chwefror 2021, gosododd Llywodraeth Cymru reoliadau gerbron y Senedd, sy'n ymrwmo Cymru i dargedau newid hinsawdd llymch uchaf 2050, mewn ymateb i gyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Dyma'r ail set o reoliadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn dilyn rheoliadau 2018, a oedd yn targedu gostyngiad o 80 y cant erbyn 2050, a oedd yn cael ei ystyried yn annigonol. Mae'r prif reoliadau'n cynnwys diwygio targed allyriadau 2050 i sero net, diweddar targedau interim ar gyfer 2030 a 2040 i ostyngiadau o 63 y cant ac 89 y cant yn y drefn honno, gosod terfynau llymch uchaf ar gyfer Cyllideb Garbon 2 (2021-2025), cyflwyno Cyllideb Garbon 3 (2026-2030), a gosod terfyn gwrthbwyso o 0 y cant ar gyfer Cyllideb Garbon 2.

Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (CCRA3) 2022 – Crynodeb ar gyfer Cymru

3.3.33 Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (CCRA3) yw'r trydydd asesiad cynhwysfawr o risgiau hinsawdd y mae'r DU yn eu hwynebu, a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC). Mae'r Crynodeb ar gyfer Cymru yn amlygu'r risgiau a'r cyfleoedd i Gymru a bydd yn cynnig sylfaen gritigol ar gyfer datblygu

fframwaith strategol gyda'r nod o ddelio ag effeithiau newid hinsawdd a chryfhau gwytnwch yn Nghymru.

Strategaeth Cymru ar Addasu i'r Hinsawdd (2024)

3.3.34 Mae Strategaeth Cymru ar Addasu i'r Hinsawdd yn amlinellu'r dull cenedlaethol i addasu i effeithiau newid hinsawdd, gan adeiladu gwytnwch, a sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer ei phobl, yr economi a'r amgylchedd. Nod y strategaeth yw darparu fframwaith er mwyn ymdrin ag effeithiau presennol newid hinsawdd, a rhai'r dyfodol yng Nghymru, gan sicrhau bod Cymru'n gallu gwrthsefyll risgiau hinsawdd, ac alinio gyda nodau hinsawdd Cymru, gan gynnwys cyrraedd allyriadau sero-net erbyn 2050.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP) – 2019

3.3.33 Cafodd ei fabwysiadu ym mis Tachwedd 2019, ac mae'n nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer datblygu ardaloedd morol ar y glannau ac ar y môr yng Nghymru yn gynaliadwy. Fel cynllun morol cyntaf Cymru, mae'n nodi dechrau proses i siapia moroedd Cymru i gefnogi gweledigaeth y DU o gefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. Cafodd y cynllun ei baratoi a'i fabwysiadu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, yn benodol ar gyfer Adran 51 ac yn unol ag Atodlen 6 y Ddeddf, ac mae'n cydymffurfio â Datganiad Polisi Morol y DU (MPS) 2. Dylai ceisiadau mewn ardaloedd morol ddefnyddio'r Cynllun a'i ddeunyddiau ategol i lunio cynigion. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, a gall defnyddwyr eraill gyfeirio at y polisiau sydd wedi'u nodi yn y cynllun i ddeall strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ardal y Cynllun yn gynaliadwy.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

3.3.34 Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar gyfer pedwar rhanbarth yng Nghymru. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn gorff cyfreithiol ar wahân a gafodd ei gyfansoddi'n ffurfiol ym mis Ionawr 2022. Mae'n cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog.

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021

3.3.35 Daeth Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) i rym ar 28 Chwefror 2022. Mae'r Rheoliadau'n nodi'r gofynion gweithdrefnol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Mawrth 2021)

3.3.36 Ar ôl 31 Mawrth 2021, mae ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010. Nod y ddyletswydd yw cefnogi aelodau mwyaf agored i niwed cymdeithas, drwy fynnu bod gan lunwyr penderfyniadau strategol drywydd archwilio clir i ddangos eu bod yn ystyried sut gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth

3.3.37 Roedd Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gyflawni targed 30 erbyn 30, i ddiogelu a rheoli 30 y cant o dir, dŵr croyw a moroedd Cymru yn effeithiol ac yn deg erbyn 2030 fel ffocws strategol i ystyried ble a sut y gellid cyflymu camau gweithredu.

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

3.3.38 Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn gymwys i holl dir Cymru felly bydd y rheoliadau'n berthnasol i bob cae yng Nghymru. Mae'r rheoliadau'n dirymu ac yn disodli Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2021 gyda chyfnodau trosiannol ar gyfer rhai mesurau hyd at 1 Awst 2024. Mae'r mesurau rheoleiddiol yn ceisio mynd i'r afael â llygredd amaethyddol.

3.4 Newidiadau Rhanbarthol

Cyd-bwyllgor Corfforedig (CJC) ar gyfer De-orllewin Cymru

3.4.1 Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, a sefydlwyd yn 2022, wedi paratoi a mabwysiadu Strategaeth Ynni Rhanbarthol De-orllewin Cymru a Chynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor

Corfforedig hefyd yn paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer ymgynghoriad yn 2024/25 a'r Cynllun Datblygu Strategol.

Strategaeth Ynni Ranbarthol De-orllewin Cymru, (SWW CCA), 2022

3.4.2 Mabwysiadwyd Strategaeth Ynni Ranbarthol De-orllewin Cymru ym mis Ebrill 2022. Mae'r Strategaeth yn nodi ymyriadau allweddol i gyflawni uchelgeisiau'r rhanbarth ar gyfer datgarboneiddio ei system ynni. Mae'r cynllun yn nodi chwe blaenoriaeth: effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu trydan, systemau clyfar a hyblyg, datgarboneiddio gwres, datgarboneiddio trafnidiaeth a chydlynu rhanbarthol. Mae'r senario Gweledigaeth Ynni wedi cael ei modelu i nodi llwybr datgarboneiddio i sicrhau bod y rhanbarth yn gallu cyflawni system ynni sero net erbyn 2050.

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru, 2022

3.4.3 Mabwysiadwyd Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru ym mis Ionawr 2022 ac mae'n gweithredu fel y polisi adfywio economaidd cyffredinol ar gyfer y rhanbarth hyd at 2030. Nod y Cynllun yw meithrin economi gadarn, eang a chynaliadwy yn y rhanbarth. Mae'r Cynllun yn gosod yr uchelgeisiau canlynol ar gyfer 2030: bod yn arweinydd ym maes ynni adnewyddadwy, sefydlu sylfaen fusnes gadarn a chryfhau a gwreiddio busnesau lleol a gwella asedau diwylliannol ac amgylcheddol y rhanbarth i roi hwb i dwristiaeth a phrofiadau lleol. Mae'r Cynllun yn nodi asedau naturiol y rhanbarth, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'r cynllun yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr asedau naturiol o ran hyrwyddo twristiaeth a gwella apêl ddiwylliannol ac amgylcheddol y rhanbarth. Blaenoriaethau strategol y cynllun yw twf economaidd er mwyn mynd i'r afael â gwendidau strwythurol a manteisio ar gryfderau unigryw gan gynnwys y potensial ynni a chysylltiadau rhwng y brifysgol a'r byd diwydiannol, a sicrhau cydweithio rhwng busnesau, y llywodraeth, sefydliadau addysg a chymunedol. Mae camau gweithredu ac ymyriadau yn pwysleisio cynaliadwyedd a chynwysoldeb.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru

3.4.4 Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2025-30 wrthi'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a bydd yn disodli'r Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd presennol. Bydd yn darparu fframwaith strategol ar gyfer gwella cysylltedd ar draws y rhanbarth a rhaid iddo gyd-fynd â Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021. Disgwylir ymgynghoriad cyhoeddus ar gynllun drafft ddiwedd 2024/ 2025. Amcanion allweddol drafft y cynllun yw; twf economaidd, hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy gyda newid o'r car preifat i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy a theithio llesol a sicrhau bod rhwydweithiau trafnidiaeth yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb.

Cynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru

3.4.5 Mae'n ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Bydd gan y Cynllun Datblygu Strategol statws cynllun datblygu a rhaid iddo gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, a rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol gydymffurfio â Chynllun Datblygu Strategol mabwysiedig. Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn canolbwyntio ar faterion cynllunio strategol yn y rhanbarth, gan gynnwys twf economaidd, tai, trafnidiaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol. Bydd y cynllun yn nodi meysydd twf strategol a dyraniadau strategol. Nid oes amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ar hyn o bryd.

Datganiadau technegol rhanbarthol ar gyfer Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru (Ail Adolygiad) Medi 2020

3.4.6 Pwrpas y RTS yw sicrhau cyflenwad digonol a chyson o agregau ar gyfer y diwydiant adeiladu a diwydiannau eraill, gan ystyried amcanion allweddol y cyflenwad cynaliadwy o fwynau fel y nodir yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (MTAN1).

Porthladd Rhydd Celtaidd – Aberdaugleddau

3.4.7 Ym mis Medi 2022, gofynnodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gynigion ar gyfer sefydlu Porthladd(oedd) Rhydd yng Nghymru. Cafodd y cais llwyddiannus am Borthladd Rhydd Celtaidd ei baratoi gan gonsortium sector cyhoeddus / sector preifat sy'n cynnwys Associated British Ports, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Phorthladd Aberdaugleddau. Cafodd strwythurau llywodraethu'r Porthladd Rhydd eu sefydlu yn 2023, gyda'r achos busnes terfynol yn cael ei gyflwyno a'r Porthladd Rhydd yn cael ei ddynodi yn 2024. Disgwylir iddo gynhyrchu manteision economaidd sylweddol, gan gynnwys £900 miliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros erbyn 2030 a £13 biliwn erbyn 2050. Mae'r fenter hon yn gyfle sylweddol i Sir Benfro, yn unol â dyheadau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sbarduno trawsnewid ynni a thwf economaidd.

Datganiad Ardal De-orllewin Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru), 2020

3.4.8 Mae Datganiad Ardal De Orllewin Cymru yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae'n nodi'r risgiau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer meithrin cadernid ecosystemau a chefnogi'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o dan bedair thema:

1. Lleihau anghydraddoldebau iechyd
2. Sicrhau rheoli tir yn gynaliadwy
3. Gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a'i wella
4. Lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd

Datganiad Ardal Forol (Cyfoeth Naturiol Cymru) 2020

3.4.9 Mae'r Datganiad Ardal Forol yn cwmpasu glannau Cymru sy'n ymestyn allan 12 o filltiroedd morol ac yn cynnwys 43% o diriogaeth Cymru. Dyma'r Datganiad Ardal Forol cyntaf o'i fath yng Nghymru a'i nod yw llywio'r gwaith o reoli amgylchedd morol Cymru yn gynaliadwy drwy:

1. Meithrin gwytnwch ecosystemau morol
2. Datrysiadau natur ac addasiadau arfordirol
3. Gwneud y mwyaf o gynllunio morol

3.4.10 Cefnogir pob adran gan dystiolaeth a gyflwynir ar Borth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru.

3.5 Newidiadau Lleol

Cynllun Llesiant Sir Benfro (Bwrdd Gwasanaethau Sir Benfro), 2023

3.5.1 Mae Cynllun Llesiant Sir Benfro 2023 yn nodi sut bydd partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cydweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn Sir Benfro. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar dri phrif faes prosiect:

1. Lleihau tlodi ac anghydraddoldebau
2. Cryfhau cymunedau
3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur.

Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd Sir Benfro (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus), Gorffennaf 2022

3.5.2 Mae'r ddogfen yn Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro gyfan a fydd yn cael ei chyflawni rhwng 2022 a 2024 gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a'i bartneriaid cyfansoddol ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill, grwpiau

cymunedol a busnesau ar draws y Sir. Mae'n darparu dull strategol o gynyddu cydnheredd Sir Benfro i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac i baratoi ar gyfer risgiau penodol mewn perthynas â'r hinsawdd. Mae 61 o risgiau wedi cael eu harchwilio, gyda 39 o flaenoriaethau wedi'u nodi a 24 o gamau gweithredu penodol yn ychwanegol at weithgareddau cyfredol ac arfaethedig.

Cynllun Corfforaethol Awdurdod y Parc Cenedlaethol 23/24-26/27

3.5.3 Mae Cynllun Corfforaethol Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn nodi'r amcanion llesiant corfforaethol (un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) a'r camau sy'n ofynnol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion a sut bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn pum ffordd o weithio yng ngweithgareddau'r awdurdod.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: Cynllun Partneriaeth Drafft (2024)

3.5.4 Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol baratoi Cynllun Rheoli ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Mae'r Cynllun Rheoli presennol ar gyfer 2020-2024, ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ymgynghori ar gynllun drafft i ddisodli'r cynllun, a fydd yn cael ei alw'n Gynllun Partneriaeth ar gyfer 2025-2029. Mae'r Cynllun Partneriaeth drafft yn nodi dibenion y Parc Cenedlaethol, y camau i'w cymryd dros y pum mlynedd nesaf, y partneriaid dan sylw a'r mesurau llwyddiant. Mae'r polisïau a'r camau gweithredu wedi'u grwpio o dan bedair blaenoriaeth: cadwraeth, cysylltiad, cymunedau a hinsawdd.

Canllawiau Cynllunio Atodol

3.5.5 Ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2 ym mis Medi 2020, mae nifer o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol wedi cael eu mabwysiadu i gefnogi polisïau'r Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archaeoleg (gyda Chyngor Sir Penfro) - Mabwysiadwyd Mai 2021
- Bioamrywiaeth (gyda Chyngor Sir Penfro) - Mabwysiadwyd Mai 2021
- Carafanau, Gwersylla a Datblygu - Mabwysiadwyd Mai 2021
- Gweithfeydd Glo – Ansefydlogrwydd – Mabwysiadwyd Hydref 2022
- Ardaloedd Cadwraeth (gan gynnwys 13 o ddogfennau Ardal Gadwraeth) - Mabwysiadwyd Hydref 2022
- Colli Gwestai – Mabwysiadwyd Medi 2023
- Parcio - Mabwysiadwyd Mai 2021
- Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol - Mabwysiadwyd Hydref 2022
- Ynni Adnewyddadwy - Mabwysiadwyd Mai 2021
- Diogelu Parthau Mwynau – Mabwysiadwyd Hydref 2022
- Cymeriad Morwedd – Mabwysiadwyd Medi 2023

- Dylunio a Datblygu Cynaliadwy - Mabwysiadwyd Mai 2021
- Effaith Gronnus Tyrbinau Gwynt - Mabwysiadwyd Hydref 2022
- Cynlluniau Lleoedd – Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol – Mabwysiadwyd Mai 2021
- Canllaw Coed a Choetiroedd – Mabwysiadwyd Medi 2023

Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd (Ymgynghorwyr Defnydd Tir ar gyfer Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), 2022

3.5.6 Comisiynwyd yr Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Sir Benfro gyda'r prif nod o greu amgylchedd iachach a mwy cydnerth drwy reoli a gwella seilwaith gwyrdd yn strategol. Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar nodi seilwaith gwyrdd strategol, cynhyrchu cynlluniau rheoli aneddiadau, cynllunio coed trefol a strategaethau pryfed peillio ar gyfer 11 prif anheddiad yn Sir Benfro, gan gynnwys Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth yn y Parc Cenedlaethol.

Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2020-2025

3.5.7 Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Croeso Sir Benfro yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i dyfu twristiaeth er budd Sir Benfro drwy osod blaenoriaethau clir a gweledigaeth ar y cyd ar gyfer rhanddeiliaid.

Asesiad Drafft o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) ar gyfer Sir Benfro (2023)

3.5.8 Mae Cyngor Sir Penfro, fel yr Awdurdod Tai, wedi cynnal adolygiad o anghenion tai lleol yn Sir Benfro, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'r LHMA drafft yn dilyn y fethodoleg ragnodedig newydd a'r templed a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae Pecyn LHMA yn cyfrifo'r angen am dai fforddiadwy a thai'r farchnad agored yn y dyfodol gan ddefnyddio tystiolaeth o'r angen am dai fforddiadwy presennol sydd heb ei ddiwallu o'r Gofrestr Tai ac yn amcangyfrif yr angen sy'n codi o'r newydd am ddaliadaethau fforddiadwy ac ar y farchnad agored. Ystyriodd yr LHMA chwe senario; tri senario demograffig yn seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru a thri senario twf Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r canlyniadau'n dangos:

- Angen fforddiadwy sylweddol sydd eisoes yn bodoli ac sydd heb ei ddiwallu, sy'n sylweddol fwy na'r angen a ragwelir fydd yn codi o'r newydd .
- Mae'r rhan fwyaf o'r angen am dai fforddiadwy ar gyfer eiddo rhent cymdeithasol
- Angen sylweddol am dai un ystafell wely fforddiadwy

Mae'r LHMA Drafft yn aros am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Strategaeth Tai Lleol Sir Benfro (Cyngor Sir Penfro), 2023

3.5.9 Cyhoeddwyd y Strategaeth Dai Leol ar gyfer Sir Benfro yn 2023 ac mae'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

1. Cynyddu tai fforddiadwy
2. Atal a lliniaru digartrefedd
3. Gwellu ansawdd a chynaliadwyedd tai
4. Cefnogi pobl i fyw'n annibynnol
5. Lleihau ôl troed carbon y stoc dai erbyn 2033

Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Benfro (a baratowyd gan ARUP ar ran Cyngor Sir Penfro)

3.5.10 Mae'r LAEP yn archwilio potensial hydrogen, ac mae'r ddogfen yn amlinellu mapiau llwybr tymor byr a thymor hir i gyflawni system ynni carbon sero net erbyn 2050.

4.1 Gweledigaeth ac Amcanion

4.1.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn nodi'r materion a'r cyfleoedd allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt dros gyfnod y Cynllun o ganlyniad i gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd, yn ogystal â chael ei hysbysu gan bolisiau, strategaethau a chynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Nodwyd materion o dan chwe maes blaenoriaeth eang sef:

- rhinweddau arbennig;
- datblygu a'r potensial ar gyfer twf;
- newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy a llifogydd;
- economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio gwledig;
- tai fforddiadwy a thwf tai; a
- chyfleusterau cymunedol a manwerthu.

4.1.2 Mae'r weledigaeth yn cydnabod, er mwyn parchu a, lle bo'n bosibl, gwella'r rhinweddau arbennig, bod cyfleoedd i ddatblygu yn gyfyngedig ac na fydd poblogaeth y Parc yn gallu cynyddu'n sylweddol. Mae'r cyfleoedd hynny ar gael ar gyfer datblygu sy'n cyfrannu fwyaf at gynnal cymunedau lleol lle maent yn gydnaws â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol.

4.1.3 Cyflawnir gweledigaeth y CDLI drwy 21 o amcanion wedi'u grwpio yn ôl y chwe maes blaenoriaeth a'u gosod yng nghyd-destun cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol. Mae 16 o ganlyniadau allweddol yn nodi'r hyn y mae'r Awdurdod yn rhagweld y bydd yn ei gyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun.

4.1.4 Bydd dibenion statudol y Parc Cenedlaethol i warchod a gwella'r Parc Cenedlaethol a hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau'r rhinweddau arbennig yn parhau i fod yn amcan cyffredinol y Cynllun a bydd yn sail i weledigaeth, amcanion a strategaeth y cynllun. Ni ragwelir y bydd newidiadau sylweddol i'r weledigaeth, yr amcanion a'r strategaeth, fodd bynnag, bydd angen adolygu'r materion allweddol yn yr ardal a'r weledigaeth a'r amcanion yng ngoleuni diweddariadau i bolisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan gynnwys perthynas y Cynllun â Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru a chanlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol yn ogystal â'r cynllun llesiant lleol, Cynllun Partneriaeth (Rheoli) diweddaraf yr Awdurdod, Cynllun Corfforaethol y Parc Cenedlaethol. Bydd casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn nodi'r materion allweddol y mae'n rhaid i'r cynllun geisio mynd i'r afael â nhw.

4.2 Strategaeth Ofodol

Polisi 2 Canolfan Gwasanaeth a Thwristiaeth Dinbych-y-pysgod (Haen 1) (Polisi Strategaeth)

Polisi 3 Canolfan Leol Trefdraeth (Haen 2) (Polisi Strategaeth)

Polisi 4 Canolfan Leol Saundersfoot (Haen 2) (Polisi Strategaeth)

Polisi 5 Canolfan Leol Tyddewi (Haen 2) (Polisi Strategaeth)

Polisi 6 Canolfannau Gwledig (Haen 3) (Polisi Strategaeth)

Polisi 7 Cefn Gwlad (Haen 4) (Polisi Strategaeth)

Adolygu Maes Pwnc:

4.2.1 Mae strategaeth ofodol y CDLI 2 a fabwysiadwyd yn seiliedig ar hierarchaeth aneddiadau Cynllun Gofodol Cymru, a ddiddymwyd yn 2021 ar ôl cyhoeddi Cymru'r Dyfodol. Mae strategaeth Cynllun Datblygu Lleol 2 yn cyfuno'r angen am ddiogelu'r amgylchedd ag agwedd gytbwys a chynaliadwy tuag at ddarparu a dosbarthu datblygiadau newydd. Mae'r strategaeth yn nodi pedair haen o anheddiad, gyda darpariaeth dai newydd yn canolbwyntio ar haenau uwch yr hierarchaeth yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd:

- Haen 1: Canolfannau Gwasanaeth a Thwristiaeth
- Haen 2: Canolfannau Lleol
- Haen 3: Canolfannau Gwledig
- Haen 4: Cefn gwlad

4.2.2 Mae polisiâu 2 i 7 yn nodi'r polisiâu strategol i sicrhau bod datblygiad priodol yn cael ei gyfeirio at haen berthnasol yr hierarchaeth. Mae'r strategaeth twf yn ceisio sicrhau bod Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth yn cynnal eu safle mewn perthynas â'i gilydd a chanolfannau mwy y tu allan i'r ardal. Mewn Canolfannau Gwledig, gall cyfleoedd datblygu ar raddfa lai fod yn dderbyniol. Mae Polisi 7 yn bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf i reoli datblygiad yng nghefn gwlad.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.2.3 Mae dangosydd 29 AMR yn gosod targed i 90 y cant o'r tai a gwblheir gael eu canoli yng Nghanolfannau'r Cynllun gyda'r trothwy'n cael ei gyrraedd os cofnodir 20 y cant o'r rhai a gwblhawyd yng nghefn gwlad erbyn cyfnod Adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. Mae'r ffigurau yn yr Adolygiad o'r Cynllun yn 17 y cant o'r rhai a gwblhawyd

yng nghefn gwlad (83 y cant yng Nghanolffannau'r Cynllun). O'r herwydd, nid yw'r trothwy wedi'i fodloni, ac mae'r tai a gwblhawyd yn unol â'r strategaeth ofodol.

4.2.4 Yn ystod cyfnod monitro 2022-23, roedd nifer fawr wedi'u cwblhau yng nghefn gwlad (69 y cant). Roedd hyn oherwydd bod Safle Eithriad Tai Fforddiadwy wedi cael caniatâd yn unol â Pholisi 49 y Cynllun.

4.2.5 Ystyrir felly bod strategaeth ofodol y Cynllun a Pholisïau 2 i 7 yn perfformio'n effeithiol ac yn unol â'r bwriad.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.2.6 Mae'r strategaeth ofodol yn gofyn am adolygiad a golygiad posibl gan ei bod yn seiliedig ar Gynllun Gofodol Cymru a ddiddymwyd yn 2021. Mae angen i'r strategaeth gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol a bod yn gyson â Chynlluniau Datblygu Lleol mewn awdurdodau cyfagos.

4.2.7 Bydd angen i'r adolygiad o'r strategaeth ofodol fod yn seiliedig ar y materion sy'n effeithio ar gymunedau'r Parc Cenedlaethol. Bydd data o'r Cyfrifiad diweddar yn cael ei goladu i ystyried amrywiaeth o faterion cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar gymunedau'r Parc, er enghraifft, argaeledd a fforddiadwyedd tai, yr iaith Gymraeg a'i diwylliant a chyfleoedd gwaith i hysbysu'r strategaeth.

4.2.8 Cynhelir asesiad o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael mewn aneddiadau er mwyn datblygu hierarchaeth aneddiadau a chyfeirio twf i'r mannau mwyaf cynaliadwy.

4.2.9 Bydd angen astudiaeth o gapasiti trefol i ystyried capasiti ac effaith twf ar dirwedd arbennig y Parc Cenedlaethol. Bydd twf yn cael ei gyflawni yn unol â'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol ac yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

4.3 Blaenoriaeth A: Rhinweddau Arbennig

Polisi 8 Rhinweddau Arbennig

Adolygu Maes Pwnc:

4.3.1 Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol yw'r nodweddion a'r priodoleddau hynny yn y Parc Cenedlaethol sy'n cyfrannu'n unigol neu ar y cyd at wneud y Parc Cenedlaethol hwn yn unigryw. Mae'r rhain yn cael eu nodi fel a ganlyn:

Ysblander arfordirol	Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth
----------------------	-------------------------------------

Daeareg amrywiol	Ynysoedd
Amrywiaeth y dirwedd	Hygyrchedd
Cymeriad anheddiad unigryw	Lle i anadlu
Amgylchedd hanesyddol cyfoethog	Pellenigrwydd, llonyddwch a natur wyllt
Treftadaeth ddiwylliannol	Amrywiaeth profiadau a chyfuniad o rinweddau unigol

Mae Polisi 8 yn ceisio sicrhau bod y rhinweddau arbennig yn cael eu gwarchod a'u gwella lle caniateir datblygu.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.3.2 Yn ystod y tri chfnod monitro AMR, cymeradwywyd pedwar cais cynllunio yn groes i unrhyw faen prawf ym Mholisi 8. Roedd un yn AMR 1, heb fodloni'r trothwy ar gyfer dau, a thri arall yn AMR 2, gan fodloni'r trothwy ar gyfer dau. Dylid nodi bod dau o'r tri phenderfyniad yn yr ail gyfnod monitro AMR yn geisiadau union yr un fath ar 2 eiddo ar wahân.

4.3.3 Cynhaliwyd hyfforddiant i aelodau ar ôl cyfnod 2 yr AMR mewn perthynas â rhinweddau arbennig ac ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio yn groes i Bolisi 8 yng nghyfnod 3 yr AMR. Felly, mae'r polisi'n perfformio yn ôl y bwriad.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.3.4 Nodwyd y Rhinweddau Arbennig yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Mae'r Cynllun Rheoli (y Cynllun Partneriaeth erbyn hyn) ar gyfer 2025-2030 ar ffurf drafft ar hyn o bryd. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ddechrau 2024, mae rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol wedi cael eu diweddarau ac maent yn cynnwys mwy o bwyslais ar y Gymraeg a thafodieithoedd ac ar amgylchedd synhwyraidd y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys morluniau mawr, sensitifrwydd gorwel y môr i ddatblygiad, seinweddau nodweddiadol ac awyr dywyll.

4.3.5 Bydd angen adolygu Polisi 8 er mwyn ystyried y rhinweddau arbennig ychwanegol sydd wedi'u diweddarau.

Polisi 9 Llygredd Golau

Adolygu Maes Pwnc:

4.3.6 Mae Polisi 8 (Rhinweddau Arbennig) yn ceisio gwarchod a gwella rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae gwelededd awyr dywyll y nos yn cyfrannu at yr ymdeimlad o bellenigrwydd a llonyddwch y Parc Cenedlaethol gyda maen prawf a) Polisi 8 yn ceisio sicrhau nad yw'r rhinwedd arbennig hwn yn cael ei golli ac yn cael ei wella lle bynnag y bo modd.

4.3.7 Mae Polisi 9 yn ceisio diogelu'r Parc Cenedlaethol rhag llygredd golau o ganlyniad i oleuadau artiffisial allanol a lleihau'r effaith ar rywogaethau a warchodir.

4.3.8 Mae gan y Parc Cenedlaethol wyth Safle Darganfod Awyr Dywyll ac mae wedi ymrwymo i leihau llygredd golau a fydd yn arwain at fanteision bioamrywiaeth yn ogystal â lleihau costau a lleihau allyriadau carbon. Ar ben hynny, penodwyd Swyddog Awyr Dywyll yn 2023 i archwilio a monitro llygredd golau yn ogystal â galluogi newid goleuadau nad ydynt yn gydnaws ag Awyr Dywyll yn y Parc Cenedlaethol.

4.3.9 Mae Swyddogion y Parc Cenedlaethol yn rhan o Weithgor Awyr Dywyll Cymru Gyfan sy'n gweithio ar Ganllaw Ymarfer Da a fydd yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2025.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.3.10 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol o'r farn bod rheoli goleuadau mewnol (a swm y gwydr) er mwyn diogelu'r Parc Cenedlaethol ymhellach rhag llygredd golau a lleihau'r effaith ar rywogaethau a warchodir. Mae awyr dywyll wedi cael ei nodi fel rhinwedd arbennig wedi'i ddiweddarau.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.3.11 Bydd angen diwygio Polisi 9 i gynnwys y potensial ar gyfer llygredd golau o oleuadau mewnol a dyluniad gwael. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar Lygredd Golau hefyd yn cael eu hadolygu.

4.3.12 Bydd angen adolygu Polisi 29 (Dylunio Cynaliadwy) hefyd.

Polisi 10 Safleoedd a Rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd

Polisi 11 Safleoedd a rhywogaethau a warchodir yn genedlaethol

Polisi 12 Ardaloedd Cadwraeth Natur Lleol neu Safleoedd o Ddiddordeb Daearegol

Adolygu Maes Pwnc:

4.3.13 Mae Polisiâu 10, 11 a 12 yn darparu fframwaith ar gyfer gwarchod ardaloedd dynodedig Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol o bwysigrwydd ar gyfer cadwraeth natur.

4.3.14 Ers dyddiad sylfaenol Cynllun Datblygu Lleol 2 yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yn 2019 ac argyfwng natur yn 2021. Mae'r datganiadau hyn, ynghyd â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, wedi hysbysu newidiadau i bolisi cenedlaethol.

4.3.15 Mae Polisi 9 Cymru'r Dyfodol 'Rhwydweithiau Ecolegol Gadarn a Seilwaith Gwyrdd' yn ceisio sicrhau bod partneriaid yn cydweithio i fabwysiadu dull strategol o ddiogelu rhwydweithiau ecolegol, sicrhau budd net i fioamrywiaeth ac addasu i newid yn yr hinsawdd a gwella ansawdd aer. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi Bryniau Preseli a choetiroedd gogledd Sir Benfro fel Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy'n darparu nifer o wasanaethau ecosystem drwy liniaru llifogydd, dal a storio carbon, yn ogystal â darparu adloniant a bwyd. Bydd gofyn i'r CDLI nodi a diogelu'r Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn ogystal â datblygu polisiâu lleol priodol i gryfhau'r ecosystem a'r rhwydwaith ecolegol.

4.3.16 Cafodd Polisi Cynllunio Cymru (argraffiad 12) ei ddiweddarau ym mis Chwefror 2024, i ystyried Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, dyletswydd adran 6 ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae polisi cenedlaethol diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol:

- Paratoi Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd i ddatblygu rhestr ofodol a mapiau o'r seilwaith gwyrdd presennol, asedau a rhwydweithiau ecolegol. Dylai'r wybodaeth hon nodi cyfleoedd strategol allweddol i ddiogelu, cadw, adfer, creu a chysylltu nodweddion gwyrdd.
- Sicrhau budd net i fioamrywiaeth drwy gymhwyso'r dull gweithredu fesul cam ar gyfer pob cynnig datblygu o'r cyflwr sylfaenol, sy'n gymesur o ran graddfa a natur i'r datblygiad arfaethedig. Rhaid i bob cynnig datblygu gyflwyno datganiad seilwaith gwyrdd cymesur.
- Datblygu polisiâu cryfach i warchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Coed a Choetiroedd a Seilwaith Gwyrdd.
- Ystyried y meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yn y Datganiad Ardal yn y CDLI.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.3.17 Bydd polisiâu 10, 11 a 12 yn cael eu diwygio i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r canllawiau polisi cenedlaethol newydd ynghylch diogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yn dilyn Brexit, mae angen diweddariad ffeithiol i newid cyfeiriadau o safleoedd Ewropeaidd i'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol.

4.3.18 Mae nifer o heriau o ran ansawdd dŵr, gyda mwy o nitradau a llygredd o ddatblygiadau trefol ac amaethyddiaeth yn mynd i mewn i amgylchedd afonydd o ddŵr gwastraff ychwanegol neu reoli tir. Erbyn hyn, mae rheolaethau llymach ar ansawdd dŵr mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol (ACA) ac mae disgwyl am ganllawiau newydd hefyd ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol. Mae angen polisi newydd ynghylch yr angen i ystyried sut y bydd datblygiad yn effeithio ar ansawdd dŵr ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd.

4.3.19 Er mwyn ystyried y newidiadau diweddar i bolisi cenedlaethol, bydd y gwaith o ddiwygio'r cynllun yn defnyddio gwybodaeth o'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Sir Benfro i nodi seilwaith gwyrdd strategol a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf (o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) yn y Parc Cenedlaethol. Bydd y cynllun yn nodi meysydd ar gyfer diogelu neu wella seilwaith gwyrdd strategol a chyfleoedd ar gyfer creu seilwaith gwyrdd neu greu cynefinoedd, ar raddfa strategol a lleol. Bydd hyn yn helpu i wrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth, mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a chyfrannu at greu lleoedd a darparu manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach. Bydd polisiau hefyd yn cael eu drafftio i adlewyrchu'r gofyniad i sicrhau budd net i fioamrywiaeth drwy'r dull gweithredu fesul cam ac i nodi'r gofyniad am ddatganiad seilwaith gwyrdd. Efallai y bydd angen polisi newydd ar Goed a Choetiroedd. Bydd polisiau seilwaith gwyrdd yn cynnwys diogelu a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, mannau agored, llifogydd, tirwedd a chreu lleoedd.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.3.20 Bydd yr adolygiad yn datblygu polisiau ar seilwaith gwyrdd strategol er mwyn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, Cymru'r Dyfodol a newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru (argraffiad 12). Mae angen polisi newydd hefyd i asesu a rheoli effaith datblygu a maethynnau ar ansawdd dŵr. Bydd polisiau'r CDLI yn defnyddio tystiolaeth o Ddatganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd ac yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol.

Polisi 13 Yr Iaith Gymraeg

Adolygu Maes Pwnc:

4.3.21 Mae nodau ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru wedi'u nodi yn Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050 sy'n gosod targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy ddarparu cyfleoedd hygyrch i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol a gwaith a chreu amgylchiadau ffafriol i annog nifer y siaradwyr Cymraeg.

4.3.22 Mae Polisi 13 Cynllun Datblygu Lleol 2 yn gwarchod rhag datblygiadau a fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar y Gymraeg. Mae'r Cynllun yn nodi bod 18 o Ardaloedd Cynghorau Tref a Chymuned yn 'Ardaloedd Ieithyddol Sensitif' lle mae siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli 19.2 y cant o'r boblogaeth fel y nodir yng Nghyfrifiad 2011, ac yn ceisio gwarchod y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn fel un o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

4.3.23 Mae'r Polisi yn datgan y bydd cynigion sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar y Gymraeg yn destun Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.

Beth sydd angen ei newid (problemiau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.3.24 Yn ystod y tri chyfnod monitro AMR ni fu i unrhyw ganiatâd cynllunio yn ymwneud â datblygu mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif o ran y Gymraeg gael ei roi yn groes i'r cynllun. O'r herwydd, mae Polisi 13 yn gweithio'n effeithiol.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.3.25 Ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y sylfaen dystiolaeth wedi newid yn sylweddol, fodd bynnag, bydd angen adolygu data ystadegol diweddaraf y Cyfrifiad sy'n ymwneud â chanran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol er mwyn penderfynu a oes angen diwygio'r Ardaloedd Ieithyddol Sensitif presennol ac ystyried a oes angen diwygio'r trothwyon datblygu.

4.3.26 Bydd Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cael ei gynnal a bydd ystyriaethau o'r Iaith Gymraeg hefyd yn cael eu hintegreiddio i'r Arfarniad Cynaliadwydd Integredig ar gyfer y CDLI Newydd.

4.3.27 Bydd newidiadau posibl mewn meysydd polisi eraill yn cael eu hystyried ar gyfer effeithiau yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Bydd angen glynu i'r Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) wrth adolygu'r LDP.

Polisi 14 Cadwraeth a Gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Adolygu Maes Pwnc:

4.3.28 Mae Polisi 14 yn ceisio sicrhau nad yw rhinweddau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu colli i genedlaethau'r dyfodol a'i fod yn caniatáu datblygu lle nad oes effeithiau niweidiol annerbyniol ar rinweddau a chymeriad y dirwedd a'r morlun arbennig, gan gynnwys yr amgylchedd hanesyddol. Rhoddir ystyriaeth arbennig i effaith yr effaith gronnol.

Cefnogir y polisi gan Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Gymeriad Tirwedd a Chymeriad Morwedd.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.3.29 Yn ystod y tri chyfnod monitro AMR, cymeradwywyd dau gais cynllunio yn groes i Bolisi 14, un yng nghyfnod 1 yr AMR ac un yng nghyfnod 2 yr AMR. Ni chyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer y ddau gais yn y naill flwyddyn na'r llall.

4.3.30 Cynhaliwyd hyfforddiant i aelodau ar ôl cyfnod 2 yr AMR mewn perthynas â thirlun a morlun ac ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio yn groes i Bolisi 14 yng nghyfnod 3 yr AMR. Felly, mae'r polisi'n perfformio yn ôl y bwriad.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddaru yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddaru:

4.3.31 Bydd angen adolygu Polisi 14 i sicrhau ei fod yn parhau i warchod rhinweddau a thirlun a morlun arbennig y Parc Cenedlaethol. Rhoddir ystyriaeth i'r angen am bolisi newydd i warchod tirwedd hanesyddol y Parc Cenedlaethol.

Polisi 15 Man Agored

Polisi 16 Lleiniau Glas

Adolygu Maes Pwnc:

4.3.32 Mae Polisi 15 y CDLI yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu mannau agored presennol ac i ddarparu mannau agored newydd ar ddatblygiadau tai o 10 annedd neu fwy. Mae'r polisi'n cael ei ategu gan Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio sy'n nodi lle bydd angen rhwymedigaethau cynllunio mannau agored i ddarparu ar gyfer anghenion yn y dyfodol o ganlyniad i ddatblygiadau ychwanegol mewn cymunedau.

4.3.33 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12, Chwefror 2024) yn nodi bod mannau agored yn un o'r swyddogaethau y gellir eu cyflawni gan seilwaith gwyrdd, gan hwyluso manteision iechyd a llesiant yn ogystal â gwella cydnerthedd ecosystemau, gwella ansawdd aer, lleihau llygredd sŵn a lliniaru newid yn yr hinsawdd.

4.3.34 Mae Polisi 16 y Cynllun Datblygu Lleol yn dynodi Lleiniau Glas i atal uno canolfannau, diogelu lleoliad canolfannau a diogelu cefn gwlad.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.3.35 Yn ystod y tri chyfnod monitro AMR, ni fu i unrhyw ganiatâd cynllunio yn ymwneud â mannau agored neu leiniau glas gael eu caniatáu yn groes i'r cynllun. O'r herwydd, mae Polisiâu 15 ac 16 yn gweithredu'n effeithiol.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddaru yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.3.36 Bydd angen Asesiad Mannau Agored wedi'i ddiweddaru i nodi mannau agored presennol a lle mae diffygion.

4.3.37 Bydd angen adolygu Lleiniau Glas hefyd i sicrhau eu bod yn dal yn briodol.

4.3.38 Bydd angen i'r CDLI Newydd hefyd ystyried polisiâu ar Seilwaith Gwyrdd a ddylai gynnwys diogelu bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, mannau agored, llifogydd, tirwedd a chreu lleoedd, gan gydnabod rôl amlbwrpas seilwaith gwyrdd ynghylch llesiant amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

4.4 Blaenoriaeth B: Datblygiad Mawr, y potensial ar gyfer twf

Polisi 20 Maint y Twf

Adolygu Maes Pwnc:

4.4.1 Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn fwyfwy wedi methu ag ymdopi â'r galw oherwydd materion sy'n ymwneud â sensitifrwydd tirwedd. Mewn Parciau Cenedlaethol, mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i gynigion datblygu mawr sy'n fwy cenedlaethol na lleol eu natur. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r profion ar gyfer datblygiadau mawr. Mae mathau o ddatblygiadau sydd fwyaf tebygol o gael effaith strategol yn y Parc Cenedlaethol wedi cael eu nodi yn y Cynllun fel tai, cyflogaeth, ynni adnewyddadwy, gwersylla a charafanio, datblygu mwynau, datblygu arfordirol a manwerthu.

4.4.2 Mae Polisi 20 yn caniatáu datblygu cyfleusterau ar y lan mewn ardaloedd datblygedig o'r arfordir, ac eithrio datblygiadau marina nad ydynt yn cael eu hystyried yn briodol ar yr arfordir sensitif, cyfleusterau gwastraff sy'n gwasanaethu'r Parc Cenedlaethol yn bennaf ac ynni adnewyddadwy bach a chanolig. Mae cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn brin iawn yn y Parc Cenedlaethol.

4.4.3 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir datblygiadau mawr, gan gynnwys datblygu mwynau.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.4.4 Yn ystod y tri chyfnod monitro AMR, ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ymwneud â chynigion a fyddai'n golygu defnyddio'r Prawf Datblygiad Mawr yn groes i'r cynllun. O'r herwydd, mae Polisi 20 yn perfformio yn ôl y bwriad.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.4.5 Nid yw'r Prawf Datblygiad Mawr fel y nodir yn y polisi cynllunio cenedlaethol wedi newid ac felly ystyrir nad oes angen diwygio Polisi 20.

Polisi 21 Diogelu Mwynau

Polisi 22 Clustogfeydd

Polisi 23 Pyllau Benthg

Polisi 24 Cerrig Adeiladu Lleol

Polisi 25 Deunyddiau wedi'u Hailgylchu, Eilaidd a Gwastraff

Polisi 26 Safleoedd Mwynau Segur

Adolygu Maes Pwnc:

4.4.6 Mae'r CDLI yn cynnwys nifer o bolisiâu sy'n ymwneud â mwynau. Mae Polisi 21 yn nodi'r dull polisi ar gyfer diogelu mwynau, mae Polisi 22 yn ymwneud â datblygu clustogfeydd mwynau, mae Polisi 23 yn delio â phyllau benthg ac mae Polisi 24 yn ymwneud â chwarela ar gyfer cerrig adeiladu lleol. Mae Polisi 25 yn annog defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu, eilaidd a gwastraff ac mae Polisi 26 yn ymdrin â safleoedd mwynau segur.

4.4.7 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi pwysigrwydd y diwydiant cynnyrch mwynau o ran cefnogi'r sector adeiladu yng Nghymru, gan gydnabod y bydd angen gwneud mwy i

gynyddu'r defnydd o ddeunyddiau eilaidd a deunyddiau wedi'u hailgylchu er mwyn sicrhau economi gylchol.

4.4.8 Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (2il Adolygiad, Medi 2020) yn darparu rhagamcanion wedi'u diweddarau sy'n ymwneud â'r defnydd a ragwelir o fwynau ac yn nodi argymhellion ar gyfer y dosraniadau y mae angen eu cyflenwi o bob ardal a natur a maint unrhyw ddyraniadau sy'n ofynnol yn y CDLI i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o fwynau. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, mae'r RTS yn datgan nad oes angen cynnal banciau tir, ac ni ddylai fod unrhyw ddyraniadau yn y dyfodol yn y Parc Cenedlaethol (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol).

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.4.9 Dros y tri chynnod monitro AMR ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ymwneud â datblygu mwynau yn groes i'r cynllun. O'r herwydd, mae polisïau'r CDLI sy'n ymwneud â datblygu mwynau yn perfformio yn ôl y bwriad.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.4.10 Mabwysiadwyd y Datganiad Technegol Rhanbarthol (2il Adolygiad, Medi 2020) ar ôl mabwysiadu'r CDLI. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro bellach yn rhan o ranbarth Gorllewin Cymru sy'n cynnwys y Parc Cenedlaethol, Sir Benfro a Cheredigion, gyda chydabyddiaeth y dylid lleihau'r gwaith o gynhyrchu tywod a gro yn y Parc Cenedlaethol y tu hwnt i'r cronfeydd presennol sydd â chaniatâd. Byddai tywod a gro wrth gefn yn gyfrifoldeb ar Ceredigion (yn unol â'r RTS), er mae Cyngor Sir Penfro wedi nodi ei barodrwydd i gyfrannu, fel y nodir yn LDP2, cynnig estyniad Cynllun Adnau 2 ar gyfer Chwarel Trefin a'i agwedd at Ardaloedd Chwilio am dywod a gro.

4.4.11 Mae'r RTS hefyd yn datgan y dylai'r rhanbarth gydweithio ag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos i sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael yn y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu drwy Ddatganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol (SSRC) a gaiff ei baratoi ar y cyd ar gyfer is-ranbarth Gorllewin Cymru fel y'i diffinnir yn yr Ail Adolygiad yr RTS. Mae llawer o waith wedi ei wneud eisoes ar yr SSRC ar gyfer is-ranbarth Gorllewin Cymru, a allai amrywio'r darpariaethau fel a osodwyd yn yr 2il Adolygiad RTS. Byddai'r SSRC yn destun ymgynghoriad gyda'r SWRAWP. Cydnabyddir y bydd y chwareli tywod a gro presennol o fewn y Parciau Cenedlaethol yn parhau i weithredu am weddill y cynnod a ganiateir.

4.4.12 Bydd angen adolygu polisïau 21-26 ond mae'n annhebygol y bydd angen eu diwygio.

Polisi 27 Gwastraff

Polisi 28 Compostio

Adolygu Maes Pwnc:

4.4.13 Mae Polisi 27 yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer rheoli gwastraff yn y Parc Cenedlaethol ac yn caniatáu cyfleusterau rheoli gwastraff ac ailgylchu lleol sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn bennaf. Nid yw cyfleusterau rheoli gwastraff is-ranbarthol yn cynnwys y Parc Cenedlaethol fel lleoliad priodol, a Chyngor Sir Penfro sy'n bennaf gyfrifol am reoli gwastraff Sir Benfro.

4.4.14 Mae'r Parc Cenedlaethol yn rhan o ardal Canolbarth a De-orllewin Cymru ar gyfer cynllunio a monitro gwastraff. Mae angen gwybodaeth am gyfleusterau rheoli gwastraff ac adfer adnoddau'r rhanbarth er mwyn monitro gweithredu 'Tuag at Gymru Ddiwastaff'.

4.4.15 Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth i wireddu'r economi gylchol yng Nghymru' sy'n pwysleisio'r nod o gadw adnoddau ar waith am gyn hired â phosibl ac osgoi gwastraff.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.4.16 Yn ystod y tri chyfnod monitro AMR, ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ymwneud â chyfleusterau rheoli gwastraff yn groes i'r cynllun. O'r herwydd, mae Polisi 27 yn gweithio'n effeithiol.

4.4.17 Mae adroddiad monitro rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru (2023-24) yn dangos bod Sir Benfro eisoes yn cyrraedd y targed 70 y cant 2024/25 ar gyfer ailgylchu ac wedi gwneud hynny dros y tair blynedd diwethaf.

4.4.18 Nid yw Polisi 28 wedi cael ei ddefnyddio mewn unrhyw benderfyniadau cynllunio ers mabwysiadu'r Cynllun.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.4.19 Ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y sylfaen dystiolaeth wedi newid yn sylweddol, ac mae Parciau Cenedlaethol yn dal i gael eu hystyried yn lleoliadau amhriodol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff is-ranbarthol.

4.4.20 Bydd angen adolygu Polisi 27 i adlewyrchu'r nodau o leihau gwastraff a gweithio tuag at economi gylchol.

4.5 Blaenoriaeth C: Newid yn yr Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy, Llifogydd, Ynni Cynaliadwy

Polisi 29 Dylunio Cynaliadwy

Adolygu Maes Pwnc:

4.5.1 Mae Polisi 29 (Dylunio Cynaliadwy) yn nodi'r blaenoriaethau strategol ar gyfer cynigion datblygu, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob math o ddatblygiad newydd wneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad a natur unigryw'r amgylchedd adeiledig a naturiol yn y Parc Cenedlaethol. Mae hwn yn bolisi trawsbynciol gyda llawer o themâu fel bioamrywiaeth, cydlyniant cymunedol ac iechyd, hygyrchedd, defnyddio a chynhyrchu ynni, gwastraff, a'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd, gan gyfrannu ar y cyd at weledigaeth y Parc Cenedlaethol o ddatblygu cynaliadwy.

4.5.2 Mae'r polisi'n cael ei ategu gan Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio a Datblygu Cynaliadwy sy'n ceisio sicrhau bod dyluniad datblygiadau yn y Parc Cenedlaethol yn cynnwys adeiladau a mannau o ansawdd uchel, yn seiliedig ar egwyddorion lleoli deallus, strwythurau sy'n ymateb i'r hinsawdd, a defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.5.3 Dros y tri chfnod monitro AMR ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ymwneud â'r meini prawf a restrwyd o dan Ddylunio Cynaliadwy yn groes i'r cynllun. O'r herwydd, mae Polisi 29 yn gweithio'n effeithiol.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol:

4.5.4 Bydd angen adolygu Polisi 29, yn enwedig o ran sut y dylai datblygiadau newydd ddilyn yr Hierarchaeth Ynni ar gyfer Cynllunio fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru¹², sy'n ceisio lleihau'r galw am ynni drwy gynyddu effeithlonrwydd ynni, drwy leoli a dylunio datblygiadau newydd. Dylai polisiâu'r Cynllun ar ddylunio cynaliadwy hefyd gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau adeiladau di-garbon, gan barhau i hyrwyddo dyluniad sy'n cefnogi datgarboneiddio ac sy'n addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd nawr ac yn y dyfodol.

4.5.5 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tanlinellu rôl hanfodol seilwaith gwyrdd wrth lunio cymunedau a gwella llesiant, gan gynnig amrywiaeth o swyddogaethau a manteision sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Bydd angen diwygio polisi 29 i ystyried sut gall datblygiadau newydd ymgorffori manteision amlbwrpas seilwaith gwyrdd ar draws y themâu polisi presennol a sut mae dylunio'n cysylltu seilwaith gwyrdd ag ecosystemau cyfagos a bioamrywiaeth.

4.5.6 Bydd angen diwygio Polisi 29 hefyd i annog mesurau sy'n osgoi dylunio goleuo gwael o ardaloedd mewnol mawr sydd wedi'u goleuo mewn datblygiadau newydd, yn unol â'r diwygiadau i Bolisi 9 (Llygredd Golau).

4.5.7 Bydd yr Awdurdod yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) ar wahân ar anheddau newydd a throsi anheddau priodol. Mae'n debygol y bydd creu'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn gofyn am bolisïau newydd sy'n seiliedig ar feini prawf a fydd yn sicrhau bod Polisi 29 yn cael ei atgyfnerthu a'i gefnogi.

Polisi 33 Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

Adolygu Maes Pwnc:

4.5.8 Mae Polisi 33 yn cefnogi cynigion ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach, ganolig a mawr, sy'n ystyried Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Cefnogir y polisi gan Ganllawiau Cynllunio Atodol sy'n rhoi cyngor ar wahanol ddulliau ynni adnewyddadwy ac asesiadau sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiad ffotofoltaidd solar ar raddfa caeau a thyrbinau gwynt ar gyfer pob Ardal Cymeriad Tirwedd yn y Parc Cenedlaethol. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Ychwanegol ar Effaith Gronnus Tyrbinau Gwynt hefyd yn cefnogi'r polisi.

4.5.9 Cafodd y polisi ei hysbysu gan yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy (diweddarwyd ym mis Ionawr 2016) sy'n rhoi trosolwg o'r cyfraniad y gall y Parc Cenedlaethol ei wneud i dargedau darparu ynni adnewyddadwy cenedlaethol, heb beryglu dibenion y Parc Cenedlaethol.

4.5.10 Mae Cymru'r Dyfodol yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru a'r fframwaith polisi ar gyfer penderfynu ar gynigion datblygu ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd wedi'u hasesu ymlaen llaw ar gyfer gwynt a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Nid oes unrhyw ardaloedd wedi'u hasesu ymlaen llaw yn y Parc Cenedlaethol.

4.5.11 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r Hierarchaeth Ynni ar gyfer Cynllunio, gyda disgwyl i bob datblygiad newydd liniaru achosion newid yn yr hinsawdd yn unol â'r hierarchaeth. Bydd angen i bolisïau'r Cynllun Datblygu gefnogi cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau gwres, cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol,

a chydleoli cynigion newydd a dyraniadau tir gyda datblygiadau presennol, cyflenwyr gwres a defnyddwyr gwres.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.5.12 Yn ystod y tri chyfnod monitro AMR, ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ymwneud â chynigion ynni adnewyddadwy yn groes i'r cynllun. Rhoddwyd caniatadau cynllunio i gyfrannu at y targed gwres adnewyddadwy a'r targed trydan adnewyddadwy, er bod y rhain wedi bod yn fach ac nad ydynt yn ystyried cynhyrchu ychwanegol drwy Hawliau Datblygu a Ganiateir. Mae Polisi 33 yn perfformio yn ôl y bwriad.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.5.13 Cafwyd nifer o newidiadau polisi cenedlaethol yn ogystal â newid yn y drefn gydsynio gyda chynigion rhwng 10MW a 350MW yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru.

4.5.14 Ym mis Mawrth 2022, eglurodd Llywodraeth Cymru, lle mae Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) yn cael ei nodi mewn datblygiad arae ffotofoltaidd solar arfaethedig, y dylid rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag cael ei ddatblygu.

4.5.15 Bydd angen adolygu Polisi 33 yn unol â'r newidiadau hyn, gan gynnwys y targedau ar gyfer perchnogaeth leol. Mae angen diweddarau'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy hefyd o ystyried datblygiadau mewn technoleg ynni adnewyddadwy, gan nodi cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel yn y Parc Cenedlaethol, lleoliad Tir Amaethyddol BMV a diweddariadau posibl i sensitifrwyd y dirwedd yn y CCA.

4.5.16 Bydd hefyd yn ofynnol i adolygiad o Bolisi 29 (Dylunio Cynaliadwy) ystyried yr hierarchaeth ynni wrth gynllunio pan ystyrir datblygiadau newydd.

Polisi 34 Llifogydd a Mewnlif Arfordirol

Polisi 35 Datblygu yn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol

Polisi 36 Adleoli Anheddau Parhaol Presennol yr Effeithir Arnynt gan Newid Arfordirol

Polisi 37 Adleoli ac Amnewid Datblygiad (heblaw Preswyl) yr Effeithir Arno gan Newid Arfordirol

Adolygu Maes Pwnc:

4.5.17 Mae'r fframwaith polisi sy'n ymwneud â llifogydd a newid yn yr hinsawdd yn cynnwys Polisi 34 (Llifogydd a Mewnlif Arfordirol) sef y polisi strategol cyffredinol, sydd â'r nod o gyfeirio datblygiad oddi wrth yr ardaloedd hynny sydd mewn perygl o lifogydd. Mae'n cael ei ategu gan Bolisiâu 35 (Datblygu yn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol), Polisi 36 (Adleoli anheddau parhaol presennol y mae newid arfordirol yn effeithio arnynt), a Pholisi 37 (Adleoli ac amnewid datblygiad (heblaw preswyl) yr effeithir arno gan newid arfordirol). Mae'r polisiâu cefnogol hyn yn dynodi "Ardaloedd Rheoli Risg Arfordirol" ac yn ystyried adleoli ac adnewyddu cartrefi a chyfleusterau cymunedol, gan helpu i alluogi cymunedau arfordirol y Parc Cenedlaethol i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.5.18 Mae perygl llifogydd yn bryder allweddol mewn sawl rhan o'r Parc Cenedlaethol a dylid osgoi datblygiadau sy'n ychwanegu at faint o seilwaith sydd mewn perygl o lifogydd afonol/arfordirol. Mae monitro'r polisiâu perygl llifogydd yn dangos bod tri chaniatâd wedi'u rhoi ym mharth llifogydd C2 ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu. Rhoddwyd y ceisiadau cynllunio hyn gan y Pwyllgor Cynllunio, yn groes i argymhelliad y swyddog.

4.5.19 O blith y datblygiadau hyn, roedd un yn cael ei ystyried yn 'agored iawn i niwed' fel y'i diffinnir gan TAN 15 ac roedd y ddau arall yn ymwneud ag eiddo masnachol mewn ardaloedd risg llifogydd C2 presennol. Yn y ddau achos sy'n ymwneud â datblygu masnachol, cydnabu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu y risg o lifogydd ond roedd o'r farn bod hyn yn cael ei wrthbwysu gan hyfywedd cymdeithasol ac economaidd ac y byddai'n caniatáu i waith gael ei wneud i wella ymddangosiad yr ardal leol. Roedd y ddau gynnig hefyd yn groes i Bolisi 35, sef lleihau'r risg i fywyd ac eiddo dros amser mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd. Fodd bynnag, mae'r cynnod monitro diweddaraf 2023-2024 yn dangos na chaniatawyd unrhyw geisiadau mewn parth llifogydd C2 nac o fewn parth 3 y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol:

4.5.20 Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru TAN 15 wedi'i ddiweddarau ar lifogydd ac erydu arfordirol, a fydd yn dod i rym ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu parthau llifogydd ar gyfer risgiau o afonydd, y môr a dŵr wyneb, gyda phwyslais cryfach ar newid yn yr hinsawdd a mesurau i osgoi, cyfyngu neu liniaru materion cysylltiedig. Mae'r diweddariadau i TAN 15 yn cynnwys mwy o ffocws ar gynlluniau datblygu a chanllawiau ar baratoi Asesiadau o

Ganlyniadau Llifogydd Strategol (SFCA) effeithiol. Yn ogystal, bydd y Mapiau Cyngor Datblygu yn cael eu disodli gan Fapiau Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio (FMfP), a fydd yn cael eu datblygu a'u cyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.5.21 Ym mis Tachwedd 2021, gohiriodd y Gweinidog Newid Hinsawdd weithredu'r TAN 15 diwygiedig tan 1 Mehefin 2023, er mwyn caniatáu i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried ei effaith yn llawn. Tan hynny, mae'r Nodyn Cyngor Technegol a'r Map Cyngor Datblygu presennol yn dal i gael eu defnyddio. Fodd bynnag, ystyrir mai'r FMfP yw'r wybodaeth orau sydd ar gael i ni ar hyn o bryd ar risg llifogydd ac mae CNC wedi cynghori y byddai'r FMfP yn ystyriaeth faterol wrth bennu ceisiadau cynllunio. Mewn achosion ble mae anghysondebau'n codi rhwng dosnbarthiadau'r parthau llifogydd ar yr FMfP a'r Map Cyngor Datblygu, bydd yr Awdurdod yn mynnu cael Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) i gefnogi'r cais.

4.5.22 Roedd y Gweinidog hefyd wedi mynnu bod pob awdurdod cynllunio lleol yn adolygu eu SFCA yn ystod y 12 mis nesaf, naill ai'n unigol neu'n rhanbarthol. Mae'r SFCA Cam 1 ar gyfer De-orllewin Cymru, a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2022, yn rhoi manylion digwyddiadau llifogydd yn y gorffennol yn y Parc Cenedlaethol. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod angen i lawer o awdurdodau yn y de-orllewin symud ymlaen i gam 2 neu 3 SFCA i gefnogi Cynlluniau Datblygu Lleol, gan nodi a rheoli peryglon llifogydd ar gyfer safleoedd ymgeisiol. Nid oedd cynnydd y tu hwnt i Gam 1 ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol yn cael ei ystyried yn angenrheidiol gan fod CDLI2 eisoes wedi'i fabwysiadu ac nid oes unrhyw un o'r safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer datblygu yn CDLI2 mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi unrhyw ddiweddariad pellach ynghylch TAN 15.

4.5.23 Mae'r TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn debygol o ddod i rym erbyn diwedd 2024 a fydd yn darparu cyd-destun gwahanol iawn ar gyfer penderfyniadau cynllunio o'i gymharu â'r fframwaith presennol. O ystyried hyn, bydd angen ailystyried polisiâu'r CDLI sy'n ymwneud â llifogydd er mwyn adlewyrchu'r TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, a bydd yr SFCA wedi'i adolygu yn sail i strategaeth a chynigion y CDLI, er enghraifft wrth asesu safleoedd ymgeisiol yn y dyfodol.

4.5.24 Ar ben hynny, mae canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol bellach wedi'u cynnwys yn y fersiwn wedi'i diweddaru o Bolisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud â pherthnasedd Cynlluniau Rheoli Traethlin (SMP) i Gynlluniau Datblygu Lleol. Er bod y polisiâu llifogydd a mewnlif arfordirol yn y Cynllun yn hyrwyddo amddiffyn yr arfordir yn gynaliadwy ac yn unol â pholisi SMP sy'n benodol i'r ardal, mae unedau polisi SMP sy'n berthnasol i'r Parc wedi cael eu diwygio gyda diweddariadau newydd i ardaloedd senario. Felly, bydd yn bwysig nodi'r darnau o arfordir na all yr Awdurdod eu hamddiffyn ac a allai fod yn agored i newid arfordirol. Bydd angen i'r polisi ategu a pharhau'n gyson â pholisiau SMP yn unol â'r fframwaith a sefydlwyd yn PCC. Wrth i ni symud i mewn i Epoch 2 (tymor canolig), bydd ymgysylltiad cydweithredol gyda Grŵp Peirianeg Arfordirol Abertawe a Chaerfyrddin yn parhau'n flaenoriaeth.

4.6 Blaenoriaeth D: Economi Ymwelwyr, Cyflogaeth

Polisi 38 Economi Ymwelwyr (Polisi Strategol)

Polisi 39 Colli Gwestai a Thai Llety

Polisi 40 Datblygu Hunanddarpar

Polisi 41 Datblygu Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau

Polisi 42 Cyfleusterau Safle ar safleoedd Gwersylla, Cabanau Gwyliau a Charafannau

Adolygu Maes Pwnc:

4.6.1 Mae polisiâu 38 i 42 yn ceisio denu ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn wrth sicrhau bod amgylchedd y Parc Cenedlaethol yn parhau i gynnal ei atyniad fel tirwedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Y strategaeth yw cynnig amrywiaeth o lety gwyliau i ddiwallu anghenion amrywiol ymwelwyr a sicrhau nad yw gweithgareddau ymwelwyr a hamdden yn niweidio rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Darperir ar gyfer datblygiad hunanddarpar drwy Bolisi 40 ac ar gyfer datblygu Gwersylla, Carafannau a Chabanau Gwyliau, a chyfleusterau safle drwy Bolisiâu 41 a 42. Mae Polisi 41 yn cael ei ategu gan Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Sensitifrwydd Tirwedd i Ddatblygiadau Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau gyda chanllawiau lleoli a mesurau lliniaru lle bo'n briodol, sy'n gyffredinol yn safleoedd bach i ffwrdd o'r arfordir a Bryniau Preseli.

4.6.2 Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i reoliadau cynllunio i gyflwyno tri dosbarth cynllunio newydd – cartref sylfaenol (C3), ail gartref (C5) a llety tenantiaeth tymor byr (C6). Mae awdurdodau cynllunio lleol, lle mae ganddynt dystiolaeth, yn gallu gwneud newidiadau i'r system gynllunio i ofyn am ganiatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd o un dosbarth i'r llall yn ogystal â rhoi'r gallu i reoli nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau mewn unrhyw gymuned. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnal dadansoddiad o ba mor gyffredin yw ail gartrefi a llety gwyliau a pha mor gyffredin yw datblygiadau tebyg a diweddar mewn ardal i benderfynu a yw amod deiliadaeth C3 yn cael ei gymhwyso i ganiatâd, yn ogystal ag ystyried cymhwyso Polisi 40 (Datblygiad Hunanddarpar), Polisi 46 (Tai), Polisi 47 (Dyraniadau Tai neu Dir gyda Chaniatâd Cynllunio) a Pholisi 48 (Tai Fforddiadwy).

4.6.3 Mae'n bosibl iawn y bydd cynnydd ym mhremiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi (100 y cant yn 2023-24, 200 y cant yn 2024-25 a gostyngiad o 150 y cant y cytunwyd arno ar gyfer 2025) fel y penderfynir gan Gyngor Sir Penfro yn effeithio ymhellach ar nifer yr ail gartrefi yn y Parc Cenedlaethol, a bydd angen monitro hynny.

4.6.4 Mae nifer y safleoedd gwersylla yn y Parc Cenedlaethol yn sylweddol, gyda llawer o'r safleoedd yn safleoedd Trwyddedig gan Sefydliadau Eithriedig a safleoedd 28 diwrnod ac yn gweithredu y tu hwnt i'r cyfnod datblygu a ganiateir. Mae monitro'r safleoedd hyn yn parhau i herio adnoddau cyfyngedig yr Awdurdod. O ganlyniad, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Mai a mis Medi 2024 ar y cynnig i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla a charafanau 28 diwrnod a chyflwyno Cod Ymddygiad gwirfoddol ar gyfer Sefydliadau Eithriedig. Bwriedir cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd 28 diwrnod yn 2026.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.6.5 Dros y tri chyfnod monitro AMR ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ymwneud â gweithgaredd hamdden, colli gwestai neu ddatblygu hunanddarpar yn groes i'r cynllun. Rhoddwyd cymeradwyaeth i un cynnig i ddatblygu safle gwersylla, carafanau a chabanau gwyliau yng nghyfnod monitro AMR 1 yn groes i argymhelliad y swyddog, ond ni chyrrhaeddwyd y trothwy.

4.6.6 Bydd newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â gosod ail gartrefi a llety gwyliau a'r gallu i fynd i'r afael ag effeithiau'r rhain ar argaeledd tai mewn cymuned yn gofyn am ddiwygio polisiau 38 a 40, yn ogystal â diwygio polisiau 46, 47 a 48 i fynd i'r afael â'r dosbarthiadau defnydd newydd.

4.6.7 Bydd angen adolygu Polisi 41 hefyd yng ngoleuni Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla a charafanau 28 diwrnod.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.6.8 Bydd angen tystiolaeth a data cyfredol sy'n ymwneud â nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr i hysbysu penderfyniadau ynghylch a oes angen rhagor o reolaethau cynllunio ar draws y Parc Cenedlaethol ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau.

4.6.9 Bydd Asesiad Sensitifrwydd Tir i Ddatblygiadau Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau yn gofyn am ddiweddariadau sy'n ymwneud â datblygiadau presennol a sensitifrwydd tirwedd i ddatblygiadau yn y dyfodol.

Polisi 43 Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Byw/Gwaith

Polisi 44 (Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth)

Polisi 45 (Arallgyfeirio ar Ffermydd)

Adolygu Maes Pwnc:

4.6.10 O ran cyflogaeth, nid yw'r Cynllun yn gwneud unrhyw ddyraniad penodol ar gyfer darparu tir newydd at ddefnydd dosbarth B1, B2 neu B8 ond mae'n darparu fframwaith sy'n ceisio rheoli defnyddiau cyflogaeth presennol ac yn caniatáu darparu darpariaeth newydd ar raddfa fach. Mae Polisi 43 (Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Byw/Gwaith) yn bolisi strategol sy'n amlinellu blaenoriaethau cyflogaeth y Parc Cenedlaethol. Mae'n cefnogi datblygiadau ar raddfa fach yn y Parc i wella llesiant economaidd-gymdeithasol ei gymunedau a mynd i'r afael â heriau cyflogaeth tymhorol.

4.6.11 Yn yr un modd, mae Polisi 44 (Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth) yn atal safleoedd ac adeiladau cyflogaeth presennol rhag cael eu colli'n amhriodol i ddibenion eraill. Mae Polisi 45 (Arallgyfeirio ar Ffermydd), polisi sy'n seiliedig ar feini prawf, yn caniatáu i lawer o weithgareddau economaidd gael eu lleoli'n gynaliadwy ar ffermydd ar yr amod bod y cynlluniau ar raddfa fach ac yn integreiddio'n dda â chefn gwlad cyfagos.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.6.12 Nid oes safleoedd cyflogaeth allweddol wedi'u nodi yn y Parc Cenedlaethol ac nid oes gan y Parc safleoedd tir llwyd mawr adfeiliedig i'w rhestru fel safleoedd diogelu cyflogaeth. Mae lleoliad y Parc mewn perthynas â Chyngor Sir Penfro, sydd eisoes wedi nodi sawl safle cyflogaeth yn eu CDLI eu hunain, yn golygu bod darpariaeth ddigonol ar gyfer defnydd cyflogaeth o'r fath y tu hwnt i ffiniau'r Parc Cenedlaethol. South Hook LNG, ger Herbrandston, yw'r unig safle cyflogaeth trawsffiniol oherwydd ei fod yn agos at Ddyfrffordd Aberdaugleddau.

4.6.13 Mae AMR yr Awdurdod yn nodi nad oes unrhyw ganiatâd sy'n ymwneud â chyflogaeth yn cael ei roi yn groes i'r cynllun. O'r herwydd, mae'r polisïau uchod yn gweithio'n effeithiol ac ni ystyrir bod angen gwneud unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol:

4.6.14 Mae Polisi Cynllunio 12 yn datgan y dylai cynlluniau datblygu nodi gofynion tir cyflogaeth, dyrannu cymysgedd priodol o safleoedd i gwrdd ag angen a darparu fframwaith ar gyfer diogelu safleoedd cyflogaeth presennol o bwysigrwydd strategol a lleol. Ystyriwyd yn ystod yr archwiliad nad oedd angen i'r Cynllun mabwysiedig gael ei gefnogi gan Adolygiad Tir Cyflogaeth (ELR) ac nid yw'n nodi gofynion tir cyflogaeth nac yn dyrannu safleoedd ar gyfer datblygu, gan y byddai hyn yn cael ei ddarparu yn ardal gynllunio Cyngor Sir Penfro.

4.6.15 Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gweithio gartref. Hyd yn oed ar ôl i'r holl gyfyngiadau gael eu codi, mae gweithio o bell ac am gyfnodau hwy o amser o'r gweithle yn parhau i fod yn duedd boblogaidd, yn enwedig mewn sectorau swyddfa. Felly, efallai y bydd angen diwygio Polisi 43 i fynd i'r afael â goblygiadau hirdymor gweithio o bell a sicrhau bod y cyflenwad o dir cyflogaeth yn parhau'n ddigonol ac yn cyd-fynd ag anghenion y dyfodol.

4.6.16 Mae'r cyflogwyr mwyaf sy'n denu pobl o'r tu allan i'r ardaloedd cyfagos yn bennaf o amgylch Dyfrffordd Aberdaugleddau, y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. O ganlyniad i lwyddiant cais y Porthladd Rhydd Celtaidd, bydd nifer sylweddol o swyddi newydd yn cael eu creu ar gyrion y Parc Cenedlaethol, gan ddenu buddsoddiad mawr i gefnogi trawsnewidiadau carbon isel a di-garbon ar hyd Dyfrffordd Aberdaugleddau ac yn y Môr Celtaidd erbyn 2050. Er nad yw'n glir a fydd safleoedd diwydiannol mawr newydd yn cael eu nodi ar hyd Aberdaugleddau, mae'r arwyddion cychwynnol yn awgrymu y bydd safleoedd presennol wrth ymyl y Parc Cenedlaethol yn cael eu defnyddio, er bod safleoedd newydd neu estynedig yn dal yn bosibl a allai dreiddio i ardal y Parc.

4.6.17 Mae Polisi 32 Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 yn cydnabod Dyfrffordd Aberdaugleddau fel Ardal Twf Rhanbarthol, sy'n lleoliad pwysig ar gyfer datblygu, arloesi a buddsoddi. Bydd angen ehangu cwrdd Polisi 43 i gynnwys ystyriaeth i'r porthladd rhydd Celtaidd yn y Cynllun diwygiedig, gan y bydd angen i'r Awdurdod weithio'n agos gyda Chyngor Sir Penfro, gan chwarae rôl gefnogol yn hwyluso twf newydd o amgylch y Porthladd.

4.7 Blaenoriaeth E: Tai Fforddiadwy a Thai

Polisi 46 Tai (Polisi Strategol)

Polisi 47 Dyraniadau Tai neu Dir gyda Chaniatâd Cynllunio

[Adolygu Maes Pwnc:](#)

4.7.1 Mae lefel y twf a nodir yn CDLI 2 wedi'i nodi ym Mholisi 46 Tai (Polisi Strategaeth) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer 1,120 o unedau tai i gyflawni gofyniad o 960 o anheddau dros gyfnod y cynllun 16 mlynedd, 2015 i 2031. Mae hyn yn cyfateb i darged o 60 o gartrefi'r flwyddyn. Mae Polisi 47 yn nodi'r dyraniadau tai a'r tir gyda chaniatâd cynllunio sy'n allweddol i gyflawni'r strategaeth dai.

4.7.2 Roedd amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru yn awgrymu nad oedd fawr o gyfiawnhad dros wneud darpariaeth tai yn CDLI 2. Fodd bynnag, gan ystyried materion ac amcanion ehangach y Parc, mae'r ddarpariaeth dai yn darparu ar gyfer cadw proffil poblogaeth mwy ifanc. Mae darparu tai ar y farchnad hefyd yn golygu bod modd darparu tai fforddiadwy i ddiwallu angen sylweddol a nodwyd yn y Parc Cenedlaethol.

4.7.3 Ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2, mae Cymru'r Dyfodol wedi cael ei gyhoeddi sy'n nodi 'Lle bydd Cymru'n tyfu' (Polisi 1). Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi'i leoli yn rhanbarth y De Orllewin, gydag awdurdodau cynllunio lleol Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a rhan o Fannau Brycheiniog (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Mae ardal twf genedlaethol ar gyfer rhanbarth y De-orllewin yn cael ei nodi yng Nghymru'r Dyfodol fel Bae Abertawe a Llanelli ac mae ardaloedd twf rhanbarthol yn cael eu nodi fel Caerfyrddin a Threfi Porthladd Sir Benfro sy'n cynnwys Hwlfordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro. Dywed Cymru'r Dyfodol "bydd datblygu mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig yn cefnogi dyheadau lleol ac mae angen ei ategu yn hytrach na chystadlu ag ymdrechion i dyfu ein trefi a'n dinasoedd". Mae Polisi 4 Cymru'r Dyfodol 'cefnogi Cymunedau Gwledig' a Pholisi 5 'Cefnogi'r Economi Wledig' yn nodi sut y mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gynllunio'n gadarnhaol er mwyn diwallu anghenion eu cymunedau.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.7.4 Mae darparu tai yn unol â Pholisi 46 ac mae dyraniadau tai ym Mholisi 47 yn cael eu darparu. Mae Tabl un isod yn dod o Adroddiad Monitro Blyneddol 2024 sy'n dangos y tai a ddarparwyd o ddyddiad sylfaen 2015. Mae'r tabl yn dangos bod y ddarpariaeth gronnu gyffredinol o dai wedi cyrraedd y targed ym mis Ebrill 2024, gyda 578 o dai wedi'u cwblhau ers 2015, sy'n uwch na'r targed cronnu o gwblhau 531.

Tabl 3: Darparu Tai o 2015 (Adroddiad Monitro Blynyddol 2024)

	Year	Annual Target	Cumulative Target	Trigger 1: 10% Below	Trigger 2: 25% Below	Annual Completions	Cumulative Completions	Annual Performance	Cumulative Performance	Action	Overview
Year 1	2015-2016	46	46	41	35	46	46	100%	100%	Continue Monitoring	
Year 2	2016-2017	69	115	104	86	69	115	100%	100%	Continue Monitoring	
Year 3	2017-2018	39	154	139	116	37	152	95%	99%	Continue Monitoring	
Year 4	2018 -2019	57	211	190	158	67	219	118%	104%	Continue Monitoring	
Year 5	2019-2020	72	283	255	212	77	296	107%	105%	Continue Monitoring	
Year 6	2020-2021	62	345	311	259	103	399	166%	116%	Continue Monitoring	
Year 7	2021-2022	62	407	366	305	92	491	148%	121%	Continue Monitoring	
Year 8	2022-2023	62	469	422	352	35	526	56%	112%	Continue Monitoring	
Year 9	2023-2024	62	531	478	398	52	578	84%	109%	Continue Monitoring	

4.7.5 Mae Tabl 4 isod yn dangos sut mae safleoedd tai dynodedig yn cael eu darparu, fel y nodir ym Mholisi 47. Mae'r tabl yn dangos bod naw safle wedi'u cwblhau, gyda naw arall yn mynd drwy'r camau trafod, cynllunio ac adeiladu. Nid yw dau safle wedi symud ymlaen hyd yma a bydd yr adolygiad yn ystyried a oes digon o sicrwydd o ran cyflawni a hyfywedd ar y safleoedd hyn. Fodd bynnag, nid ystyrir bod darparu ar y ddau safle hyn yn effeithio ar strategaeth y cynllun, gan fod y capasiti safle ar gyfer y ddau safle yn 17 uned.

Tabl 4: Darparu Safleoedd Tai a Ddynodwyd ym Mholisi 47

Cyfeirnod CDLI	Enw'r Safle	Capasiti'r Safle	Crynodeb o statws cynllunio / statws adeiladu
HC1	Tir yn Feidr Eglwys, Trefdraeth	35	Cwblhawyd
HC2	Crochendy Trefdraeth, Trefdraeth	12	Cwblhawyd
HA1	Tir i'r gogledd o'r Parc Busnes, Trefdraeth	15	Trafodaethau cyn ymgeisio
HA2	Tir yn Sandy Hill, Saundersfoot	72	Rhodddwyd caniatâd cynllunio Gorffennaf 2024
HA3	I'r gogledd o Whitlow, Saundersfoot	54	Wrthi'n Cael ei Adeiladu
HA4	Penny Farm, Saundersfoot	36	Cais cynllunio wedi'i dderbyn
HC3	I'r gorllewin o Heol Glasfryn, St Porth	70	Cwblhawyd
HC4	Tir oddi ar Ffordd Walton, Aberllydan	18	Cwblhawyd

HA5	I'r gogledd, i'r dwyrain ac i'r de o Marine Road, Aberllydan	87	Trafodaethau cyn ymgeisio
HC5	Safle hen Westy Sir Benfro, Herbrandston	28	Cwblhawyd
HA6	Gyferbyn â Rhes Bush, Jameston	38	Wrthi'n cael ei adeiladu
HC6	Green Grove, Jameston	9	Cwblhawyd
HA7	I'r gorllewin o The Green, Lydstep	10	Trafodaeth barhaus gyda'r tîrfeddiannwr
HC7	Tir gyferbyn ag Ysgol Wirfoddol a Reolir Maenorbŷr	23	Cwblhawyd
HC8	Oddi ar Ffordd Trevayne (Cefn Cross Park), New Hedges	41	Cwblhawyd
HA8	Maes Glasfryn, Y Sgwâr	7	Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle
HA9	Tir yn ffinio â Bryngolau, Y Sgwâr	10	Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle
HC9	Ger yr Ysgol, Llanisan-yn-Rhos	15	Rhodddwyd caniatâd cynllunio Gorffennaf 2023
HA10	Tir oddi ar Cefn Gallod, Trefin	11	Rhodddwyd caniatâd cynllunio Medi 2022
HC10	Tir yn Nhre-groes, Solfach	5	Cwblhawyd

4.7.6 Dim ond tan ddiwedd cyfnod y cynllun yn 2031 y mae Cynllun Datblygu Lleol 2 yn darparu cyflenwad tai, ac y tu hwnt i hynny mae angen cynllun newydd i nodi'r ddarpariaeth dai. Diwygiwyd Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (PCPA) 2004 drwy Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a chyflwynwyd darpariaeth yn nodi'r cyfnod y mae cynllun yn cael effaith, a dyddiad gorffen i'r cynllun. Felly, bydd y CDLI 2 mabwysiedig yn peidio â bod yn gynllun datblygu ar gyfer y Parc Cenedlaethol ar 31 Rhagfyr 2031. Mae'n hanfodol bod CDLI newydd ar waith cyn y dyddiad dod i ben yn 2031 i sicrhau bod fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ac i ddarparu tai a thai fforddiadwy i gymunedau lleol.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.7.7 Er mwyn sicrhau bod cyflenwad hyfyw y gellir ei gyflawni o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol, byddai Polisi 46 yn cael ei adolygu i sicrhau bod gofynion tai yn cael eu diwallu, gan ystyried y dystiolaeth ganlynol:

- amcanestyniadau diweddaraf Cartrefi Llywodraeth Cymru – mae disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Amcanestyniadau Cartrefi 2021 yn 2025
- Cynllun Llesiant Sir Benfro (2023)
- yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diweddaraf – mae'r LHMA (2023) ar gyfer Sir Benfro wedi cael ei baratoi ac mae'n aros i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo.

4.7.8 Bydd ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach, sy'n unigryw i'r Parc Cenedlaethol, hefyd yn cael eu hystyried wrth ystyried lefel twf briodol. Bydd y cynllun yn ystyried y cysylltiad rhwng tai a thwf economaidd, gan gynnwys effaith bosibl Porthladd Rhydd yn Sir Benfro, anghenion tai fforddiadwy, diboblogi yn y Parc Cenedlaethol, poblogaeth sy'n heneiddio, niferoedd uchel o ail gartrefi a llety gosod tymor byr a'r effaith ar y Gymraeg. Bydd yr Awdurdod yn ystyried capasiti tirwedd y Parc Cenedlaethol i ddarparu ar gyfer twf pellach ac yn cynnal astudiaeth o gapasiti trefol i werthuso'r potensial ar gyfer datblygiadau newydd mewn trefi a phentrefi heb eu hehangu y tu hwnt i ffin bresennol yr anheddiad.

4.7.9 Mae Polisi 47 yn gofyn am adolygiad a golygiad llawn i nodi tir ar gyfer datblygu tai yn y dyfodol yn unol â'r strategaeth ofodol a thwf. Byddai diwygio'r CDLI yn llawn yn gyfle i alw ar safleoedd ymgeisiol i nodi ac asesu safleoedd newydd posibl ar gyfer datblygu yn erbyn ystod o feini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ac yn erbyn y fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd. Bydd opsiynau darparu tai ar gyfer safleoedd hunan-adeiladau bychain hefyd angen ystyriaeth yn unol â PCC 12. Rhaid i bob safle datblygu ddangos eu bod yn ymarferol ac yn hyfyw.

Polisi 48 Tai Fforddiadwy (Polisi Strategol)

Polisi 49 Safleoedd Eithrio Tai Fforddiadwy

Adolygu Maes Pwnc:

4.7.10 Mae darparu tai fforddiadwy yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae Polisi 7 'Darparu Cartrefi Fforddiadwy' yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu fframweithiau polisi cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddarparu tai fforddiadwy. Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol "nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau sy'n cael eu harwain gan dai fforddiadwy ac archwilio pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy."

4.7.11 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu a PCC wedi cael eu diweddarau ers paratoi Cynllun Datblygu Lleol 2 ac maent yn argymhell bod gwybodaeth am hyfywedd yn cael lle blaenllaw, gyda thirfeddianwyr a datblygwyr yn cynnal asesiad cychwynnol o hyfywedd y safle yn ystod y cam safle ymgeisiol (PCC, paragraff 4.2.20).

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.7.12 Mae Polisi 48 ‘Polisi Tai Fforddiadwy (Polisi Strategaeth)’ yn gosod targed i ddarparu 362 o anheddau fforddiadwy dros gyfnod y cynllun 16 mlynedd. Ers dyddiad sylfaen y cynllun yn 2015, mae 210 o gartrefi fforddiadwy wedi cael eu cwblhau, sydd ychydig yn uwch na'r targed cronnus o 207 o gartrefi fforddiadwy. Mae darparu tai fforddiadwy yn debygol o ragori ar y targed a osodwyd yn CDLI 2 oherwydd bod datblygiad ym Mrynhir, Dinbych-y-pysgod, wedi cael caniatâd cynllunio yn ddiweddar ar gyfer 125 o gartrefi, a 93 ohonynt yn fforddiadwy, sy'n cyfateb i 75 y cant o'r datblygiad.

Tabl 5: Mae'r perfformiad cronnus cyffredinol ar y trywydd iawn ym mis Ebrill 2024

	Year	Annual Target	Cumulative Target	Trigger 1: 10% Below At Review	Trigger 2: 25% Below at Review	Completed	Cumulative Completions	Cumulative Performance	Action	Overview
Year 1	2015-2016	23	23	21	17	1	1	4%	Continue Monitoring	
Year 2	2016-2017	23	46	41	35	46	47	102%	Continue Monitoring	
Year 3	2017-2018	23	69	62	52	3	50	72%	Continue Monitoring	
Year 4	2018 -2019	23	92	83	69	14	64	70%	Continue Monitoring	
Year 5	2019-2020	23	115	104	86	25	89	77%	Continue Monitoring	
Year 6	2020-2021	23	138	124	104	39	128	93%	Continue Monitoring	
Year 7	2021-2022	23	161	145	121	38	166	103%	Continue Monitoring	
Year 8	2022-2023	23	184	166	138	17	183	99%	Continue Monitoring	
Year 9	2023-2024	23	207	186	155	27	210	101%	Continue Monitoring	

4.7.13 Mae dangosydd AMR 25 yn monitro polisiâu 47 a 48 i sicrhau bod targedau tai fforddiadwy ar gyfer darparu tai fforddiadwy ar gyfer pob ardal tai ar y farchnad leol yn cael eu cynnal. Ni ragorwyd ar y trothwy ar gyfer newid o 10 y cant mewn prisiau tai, costau adeiladu na rhenti fforddiadwy mewn unrhyw gyfnod monitro ac ni fu angen adolygu'r dystiolaeth hyfywedd.

4.7.14 Bydd y Cynllun newydd yn ystyried ffyrdd o ddarparu tai fforddiadwy i'r graddau mwyaf posibl er mwyn diwallu'r angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diweddaraf. Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro fel yr Awdurdod Tai i archwilio addasrwydd tir mewn perchnogaeth gyhoeddus lle gellir sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf bosibl o dai fforddiadwy. Bydd yr Awdurdod hefyd yn

gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod safleoedd a chartrefi sy'n cael eu harwain gan dai fforddiadwy yn cael eu darparu ar gyfer angen lleol yn unol â'r strategaeth ofodol. Bydd y cynllun yn adolygu tystiolaeth yn yr LHMA diweddaraf ac yn datblygu polisiâu cadarn i sicrhau bod y cynllun yn darparu tai fforddiadwy yn unol â'r angen gofodol, maint yr eiddo sydd ei angen a deiliadaeth. Bydd angen i'r cynllun ystyried tystiolaeth hefyd gan yr LHMA o ran anghenion tai penodol ar gyfer yr henoed a'r rhai sydd ag anableddau.

4.7.15 Mae Polisi 49 y Cynllun Datblygu Lleol 'Safleoedd Eithrio Tai Fforddiadwy' yn darparu fframwaith sy'n seiliedig ar feini prawf i ganiatáu datblygu tai fforddiadwy ar safleoedd y tu allan i ffiniau aneddiadau, ond wrth eu hymyl. Ers 2015, mae 31 o unedau tai fforddiadwy wedi cael eu caniatáu ar safleoedd eithrio yn y Parc Cenedlaethol, gydag 17 o'r rhain wedi'u cwblhau a'u meddiannu. Mae angen diwygio'r polisi i egluro mai dim ond deiliadaethau rhent cymdeithasol neu rentu canolradd a ganiateir ar safleoedd eithrio.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.7.16 Mae Polisi 48 'Polisi Tai Fforddiadwy (Polisi Strategaeth)' yn nodi'r trothwyon a'r targedau ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn ardaloedd gofodol y Parc Cenedlaethol. Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar dystiolaeth o astudiaeth o hyfywedd tai fforddiadwy a gynhaliwyd i hysbysu Cynllun Datblygu Lleol 2. Bydd yr asesiad hyfywedd lefel uchel yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl gydrannau hyfywedd, gan gynnwys costau tir, costau adeiladu, prisiau tai, gofynion Adran 106 ac unrhyw ofynion CDLI penodol, fel rheolaethau ar ddosbarthiadau defnydd a safonau adeiladu. Bydd yr awdurdod yn archwilio effaith unrhyw reolaethau ar hyfywedd deiliadaeth tai a chyfyngiadau ar dai annedd sylfaenol, safonau gofod neu dai gydoll oes a gofynion sero net ar gyfer tai ar y farchnad. Bydd angen gwybodaeth am hyfywedd safle penodol gan hyrwyddwyr safle ar gyfer pob safle sy'n allweddol i gyflawni strategaeth y Cynllun, fel y nodir gan yr awdurdod.

Polisi 50 Cynigion Datblygu Tai

Polisi 51 Dwysedd Tai

Polisi 52 Cymysgedd Tai

Adolygu Maes Pwnc:

4.7.17 Mae Polisi 50 Cynigion Datblygu Tai yn nodi math a maint datblygiadau tai sy'n dderbyniol yn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae Polisi 51 'Dwysedd Tai' yn gosod isafswm dwysedd o 30 o anheddau fesul hectar. Mae Polisi 52 'Cymysgedd Tai' yn gofyn am gymysgedd o feintiau, mathau a deiliadaethau aneddiadau i greu cymunedau cytbwys.

4.7.18 Mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, mae cynghorau Sir Fynwy a Bro Morgannwg yn cynnig polisiâu yn eu CDLlau newydd ar gyfer 'cartrefi carbon sero net'. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan mai polisi Llywodraeth Cymru yw sicrhau adeiladau di-garbon ac y dylai awdurdodau cynllunio asesu safleoedd strategol i nodi cyfleoedd i fynnu safonau adeiladu cynaliadwy uwch, gan gynnwys dim carbon. Mae angen i unrhyw safonau arfaethedig sy'n uwch na'r isafswm cenedlaethol fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac ystyried hyfywedd economaidd y cynllun (gweler PCC, paragraff 5.8.5).

4.7.19 Ers mis Hydref 2021, mae'n rhaid i dai fforddiadwy sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus yng Nghymru gael eu hadeiladu yn unol â Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 'Creu Cartrefi a lleoedd hardd sy'n nodi'r safonau ansawdd gofynnol ar gyfer cartrefi fforddiadwy newydd. Mae'r safonau'n gosod safonau sylfaenol ar gyfer gofod a safonau ynni er mwyn ennill Tystysgrif Perfformiad Ynni A (EPC A) sydd angen gofyniad nad yw'n danwydd ffosil ar gyfer systemau gwresogi a dŵr domestig. Mae angen cartrefi fforddiadwy newydd sy'n cael eu darparu drwy rwymedigaethau cynllunio i fodloni'r safonau gofod.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.7.20 Bydd Polisiâu 50, 51 a 52 yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn unol â'r LHMA a thystiolaeth arall.

4.7.21 Mae Polisi 51 Dwysedd Tai yn cael ei fonitro drwy'r AMR a throthwy ar gyfer dau neu fwy o ddatblygiadau tai nad ydynt yn darparu 30 o anheddau i'r hectar oni bai fod cyfiawnhad dros ddwysedd amgen o dan Bolisi 51. Nid yw'r trothwy wedi'i fodloni, sy'n awgrymu bod y dwysedd yn briodol ac yn unol â'r datblygiad sy'n cael ei gyflawni.

4.7.22 Mae Polisi 52 Cymysgedd tai yn cael ei fonitro gyda throthwy o ddau neu fwy o ddatblygiadau tai yn cael eu cymeradwyo yn groes i Bolisi 52. Nid yw'r sbardun wedi'i fodloni sy'n awgrymu bod y polisi'n cael ei gyflawni.

4.7.23 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn derbyn nifer o geisiadau am anheddau newydd ac mae swyddogion wedi nodi bod angen polisi newydd sy'n seiliedig ar feini prawf i asesu cynigion ar gyfer anheddau newydd.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.7.24 Mae'r broses adolygu yn casglu tystiolaeth ac yn ystyried goblygiadau hyfywedd mynnu cartrefi carbon sero net a safonau gofod ar gyfer tai ar y farchnad yn y Parc Cenedlaethol. Byddai angen asesu unrhyw bolisiâu tai sy'n effeithio ar hyfywedd darparu tai fel rhan o'r asesiad hyfywedd i sicrhau bod yr effaith ar ddarparu tai fforddiadwy yn cael ei hasesu'n briodol a bod y datblygiad yn parhau i fod yn hyfyw a bod modd ei gyflawni.

4.7.25 Bydd angen i'r cynllun ystyried tystiolaeth gan yr LHMA o ran anghenion tai penodol ar gyfer yr henoed a'r rhai sydd ag anableddau. Bydd angen hefyd cael darpariaeth orfodol i ddatlygiadau tai adeiladu cyfran o'r cartrefi yn unol â Safonau Cartrefi Gydol Oed, a gwerthuso hynny'n ofalus. Bydd hyn yn golygu asesiad trylwyr o'r goblygiadau dichonoldeb ynghlwm â rhoi safonau o'r fath ar waith.

Ail Gartrefi a Thenantiaethau cyfnod byr

Adolygu Maes Pwnc:

4.7.26 Ym mis Hydref 2022, roedd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygiad) (Cymru) 2022 yn rhannu tai annedd dosbarth C3 fel a ganlyn:

- Dosbarth C3 - tai annedd, a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfeydd a feddiannir am fwy na 183 diwrnod mewn blwyddyn galendr
- Dosbarth C5 – tŷ annedd, a ddefnyddir nid fel unig neu brif breswylfa ac a feddiannir am 183 diwrnod neu lai
- Dosbarth C6 - tenantiaethau cyfnod byr am ddim mwy na 31 diwrnod ym mhob cyfnod meddiannaeth.

4.7.27 Cafodd Polisi Cynllunio Cymru ei ddiweddarau i'w gwneud yn glir, lle bo hynny'n berthnasol, bod yn rhaid ystyried mynychder ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn ardal leol wrth ystyried y gofynion tai a'r dulliau polisi mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Polisi Cynllunio Cymru (geiriad paragraff 4.2.10)

“Os yw tystiolaeth leol gadarn wedi nodi effeithiau ar y gymuned sy'n deillio o nifer yr ail gartrefi a thenantiaethau cyfnod byr, gall awdurdodau cynllunio ystyried dulliau cynllunio lleol cydgysylltiedig. Gall hyn gynnwys nodi safleoedd yn benodol mewn cynlluniau datblygu ar gyfer cartrefi newydd y mae eu defnydd wedi'i gyfyngu i unig neu brif breswylfeydd neu dai marchnad lleol a/neu gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4

sy'n benodol i ardal a allai ofyn am gais cynllunio i newid defnydd unig neu brif breswylfa i fod yn ail gartref neu denantiaeth cyfnod byr." (paragraff 4.2.10).

4.7.28 Gwynedd yw'r awdurdod cyntaf yng Nghymru i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, ac o 2 Medi 2024 ymlaen, mae angen caniatâd cynllunio i newid y defnydd o eiddo i fod yn ail gartref, tenantiaeth cyfnod byr neu ddefnydd cymysg penodol. Mae Parc Cenedlaethol Eryri hefyd wedi ymgynghori ynghylch cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli ail gartrefi a thenantiaethau cyfnod byr, allai ddod i rym o 1 Mehefin 2025. Bydd yn bwysig dysgu o brofiad yr awdurdodau hyn ac effeithiau cymdeithasol ac economaidd Cyfarwyddyd Erthygl 4.

4.7.29 Mae gan yr Awdurdod gytundeb rhannu data gyda Chyngor Sir Penfro i gael data'r dreth gyngor ar nifer yr ail gartrefi a'r tenantiaethau cyfnod byr. Mae'r data hwn yn rhoi manylion gofodol cymunedau sydd â lefel uchel o ail gartrefi a thenantiaethau cyfnod byr i'r Awdurdod. Bydd yn ddarn allweddol o dystiolaeth wrth ystyried polisiau addas ar gyfer ail gartrefi a gosodiadau tymor byr.

Beth sydd angen ei newid (problemau/dim problemau) a sut mae'r AMR yn perfformio yn y meysydd hyn:

4.7.30 I gyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru, mae angen casglu tystiolaeth gadarn am effaith ail gartrefi a thenantiaethau cyfnod byr ac a oes angen datblygu dull polisi lleol i gyfyngu ar ddefnydd preswyl.

Pa rannau o'r sylfaen dystiolaeth sydd angen eu diweddarau yn unol â newidiadau cyd-destunol diweddar:

4.7.31 Bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu ar nifer a dosbarthiad gofodol ail gartrefi a thenantiaethau cyfnod byr yn y Parc Cenedlaethol. Bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu i ddeall effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ail gartrefi a thenantiaethau cyfnod byr ac a oes angen polisiau lleol i reoli eu nifer.

Polisi 53 Sipsiwn a Theithwyr

Adolygu Maes Pwnc:

4.7.32 Mae Polisi 53 'Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn' yn bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf i asesu cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn newydd. Nid oes safleoedd wedi'u dyrannu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn CDLI 2.

4.7.33 Cafodd y dystiolaeth ddiweddaraf yn yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) (2019) ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2024. Mae'r Asesiad yn nodi bod angen naw o leiniau preswyl dros gyfnod o bum mlynedd, o 2019 hyd at ddiwedd 2024, gydag angen ychwanegol net o 2025 i 2033 o 30 o leiniau. Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd presennol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, gyda dim ond un safle preifat gyda chaniatâd cynllunio yn y Parc Cenedlaethol yn Teagues Cross, ger Caeriw. Mae'r lleoliadau cyffredinol a nodwyd gan bobl mewn angen yn gyffredinol yn ne'r sir, gyda Hwlfordd yn darparu'r lleoliad pellaf i'r gogledd.

